


Pobl yr Ymylon
gan
Idwal Jones



Cyfras Abertawe—Rhif 5.

Pobl yr Ymylon.

Drama ::
Bedair Act.

. GAN . .

IDWAL JONES.

Pris 2/6

ABERTAWE :
THOMAS A PARRY, CYF., ARGRAFFWYR.

I OLWEN, fy Chwaer,

am gynifer o resymau

fel na fedraf enwi un.

CYMERIADAU:

“ POBL YR YMYLON.”

MALACHI JONES.—Crwydryn, yn byw ar wendidau Cymdeithas. *D.W.*

DAFYDD.—Crwydryn, wedi blino ar weddusrwydd Cymdeithas. *T.J.*

ANN.—Hen wraig, yn canu'r delyn yn y ffeiriau. *RT*

ANGHARAD.—Merch i Ann, yn dawnsio yn y ffeiriau. *M.O.*

POBL BARCHUS.

DANIEL EVANS.—Perchennog Fferm Cefn Eithin a Blaenor.

CATRIN.—Merch i Daniel. *G.W.*

WILIAM.—Mab i Daniel. *E.D.*

GRUFFYDD WILLIAMS

LEWIS EDWARDS

TOMOS SIMON

} Blaenoriaid.

TWMI.—Gwâs bach, yn dechreu a gorffen ei yrfa yn y chwarae drwy gludo portmanteau i mewn a myned allan. *T.W.*

CAPELWYR.—Yn croesi'r llwyfan.

AMSER.

Y Presennol.

YR ACT GYNTAF:

Sgubor Cefn Eithin, Llanfair Moyddin, fore Sadwrn yn yr haf.

YR AIL ACT:

Cegin Cefn Eithin, nos Sadwrn o'r un diwrnod.

Y DRYDEDD ACT:

Tu allan i Capel Bethlehem, Llanfair Moyddin, y nos Sul canlynol.

Y BEDWAREDD ACT:

Cegin Cefn Eithin, yr un nos Sul, ychydig wedi'r digwyddiadau yn y drydedd act.

Cyfansoddwyd y gerddoriaeth yma gan Dr. David de Lloyd, B.A., Aberystwyth, ac i'w canu i'r penillion gan Angharad yn Act III.

{ l | m : - m | r : - t, r | m : - m | r : - r | d : l : - }

{ t | : - m | r : - d : r | t | : - m | d | : - t : s | l : - l }

{ m : - : | d : l : l | m : - m | r : t | : - l | }

{ l | m : - m | r : t | : - m : - m | r : - r | d : l : - }

{ t | : - m | r : - d : r | t | : - m | d | : - t | l : - l }

{ r | : - t | m : - r | d : l : - | m : m : - | - r : t | l | : - }

“ Blodeuodd dail ar y gangen werdd
Pan ddawnsiodd Crist ym mlodau'r maes ;
Diferodd y gwllith o'r glaswellt llaes,
Plygodd y pîn yn dannau cerdd.

A Duw a leddfodd boen y byd.
Disgleiriodd seren yn y nen ;
Daeth cwsg i enaid Magdalen,
A chwaddodd baban yn ei grud.”

POBL YR YMYLON.

ACT I.

Y mae muriau ysgubor yn wynebu'r edrychwyr. Yn y cornel i'r dde y mae cruglwyth mawr o wellt, ac y mae gwellt hefyd mewn anhrefn ar y llawr. Yn y pen nesaf i'r edrychwyr o'r mur ar y ochr chwith y mae drws yn arwain allan.

Cyfyd y llen a neb i'w weled ar y llwyfan. Cedwir ef felly am ychydig amser, nes bod y gynulleidfa ar fin anesmwytho. Yna sylwir ar ryw aflonyddwch yn y gwellt tua chanol y llwyfan, a gwelir pen a pheth o gorff dyn ifanc yn ymddangos. Pan ddêl cyfle i sylwi ar ei ddillad gwelir nad ydynt o ddeunydd da iawn, a bod llaid ac ôl cerdded arnynt, eithr nad ydynt yn hollol mor wael a rhai crwydryn cyffredin. Y mae iddo wyneb agored, pleserus, llygaid gleision, a gwallt du, cyrliog.

DAFYDD (*yn estyn ei freichiau ac yn agor ei geg*):
O di—aa—wch!

Y mae aflonyddwch eto yn y gwel.t, a'r tro hwn ymddengys pen dyn tua thrigain a phump oed. Y mae ei ddillad yn awgrymu'r coeg-foneddig—yn ymbil am barch, ond yn methu a'i gael. ...

Y mae ei wyneb hefyd yn gyd-wedd â'r dillad—wyneb mawr, crwn, llawn profiad o ymylon bywyd a direidi, a llinellau cyfrwys yn ymddangos oddeutu'r llygaid pan fo'n chwertlin. Y mae ei farf "gafr" a'i wallt ac aelïau trwchus yn frith.

Gwelir ei fod yn hoffi'r dull "Pregethwrol" o lefaru pan fo wrth ei fodd, eithr dylid gwahaniaethu rhwng hyn a'r "hwyl" a ddaw i'w leferydd yn nes ymlaen. Cyfyd yn fwy disymwth na DAFYDD o'r gwellt a daw ei eiriau cyntaf yn fuan ar ol rhai DAFYDD.

MALACHI: Dafydd, 'y machgen i, 'rwy't ti'n dechreu'r dydd yn bur anwedus. Y mae'r wawr wedi torri ar ddiwrnod arall, Dafydd.

DAFYDD: Torred hi.

MALACHI: Testun diolch sydd gennym, Dafydd.

Testun diolch. Y wawr wedi torri a ninnau mewn tŷ diddos.

DAFYDD (*yn edrych oddiamgylch*): Buckingham Palas!

MALACHI: Na, nid Buckingham Palas, Dafydd, ond bwthyn cyffredin y gwerinwr. Ie, murïau moelion. Ond diolch am gymaint a hynny.

DAFYDD: Ie, ond nid ni sydd berchen y bwthyn neu beth bynnag yw e.

MALACHI: Goreu'n y byd, Dafydd, goreu'n y byd. 'Rwy'n sicr y buasai'r bobol sy'n perchenogi'r lle dinôd yma yn falch iawn i wybod eu bod wedi cyfrannu bendithion yn ddiarwybod.

DAFYDD: Ie. Fe hyderwn 'u bod nhw wedi cadw'r ci yn sownd.

MALACHI: Fe hyderwn hynny, Dafydd. Fe hyderwn hynny. Mae llawer i ddyn wedi troi angel yn ddiarwybod o'r tŷ am i fod e wedi anghofio clymu'r ci.

DAFYDD: Malachi! Os rhywbeth ar y menu y bore 'ma? Os dim digwydd fod scadenyn coch rywle yn yr awyrgylch?

MALACHI: Rhedeg braidd yn ormodol i fyd y moethau 'rwyf ti, machgen i. (*Yn cyflymu.*) Bydd yn amyneddgar, bachan! Dysg bwysio ar Ragluniaeth. Wyddost ti ddim pa fendithion ddaw y diwrnod newydd hwn eto.

DAFYDD: Wel, gobeitho y don' nhw'n glou. Wela i ddim ohonyn' nhw'n glawio hyd yn hyn.

MALACHI: Diffyg gweledigaeth, 'y machgen i; diffyg gweledigaeth.

DAFYDD: Odych chi'n gweld rhywbeth te?

MALACHI: Llygad ffydd, Dafydd; llygad ffydd. Fe wêl dyn lawer. Mae yna fferm gerllaw, ond oes e, Dafydd?

DAFYDD: Wel?

MALACHI: Pwy wêr nad yw hi wedi insiwro yn lled drwm, Dafydd. Dywedwch rhyw bymtheg cant. Pwy wêr nad yw'r perchennog mewn dyled, a bod angen am dân,—am d—aa—n! 'Does dim i buro cymdeithas fel tân, Dafydd.

DAFYDD: Pam—o—os rhywbeth mewn golwg gyda chi?

MALACHI: O, na, na, na, Dafydd. Dim ond â

llygad ffydd, 'y machgen i. Am argraffu ar dy feddwl di wyf i, na wêr dyn ddim pa fendithion a ddaw gyda'r wawr. Os cofi di, Dafydd, 'doeddwn i ddim mewn sefyllfa i weled rhyw lawer â'r llygad naturiol neithwr. Son am dana i 'rw' i nawr.

DAFYDD: Dyna'r ffaith.

MALACHI: Na, Dafydd. Yr oeddwn wedi edrych ar y gwin pan fyddo goch. Y ddiod gadarn. Dafydd, fy mab, bydd ofalus gyda'r ddiod gadarn.

DAFYDD: Go fore yw hi i bregeth, Malachi.

MALACHI: 'Roedd crefydd yn y teulu. Fe ddiodefodd 'y nhad oherwydd i grefydd.

DAFYDD: O, shwt?

MALACHI: Canu emynau Pantycelyn berfedd nos wrth ladrata ffowls. Dyna dynnodd sylw'r polisman, Dafydd.

DAFYDD: 'Ro'dd tipyn bach mwy o grefydd nag o gallineb yn perthyn i'ch tad, Malachi.

MALACHI: Oedd, falle i fod e. Ond dyna ddull syml yr hen bobol, we'di (*Yn synfyfyrrio.*) Rhyfedd meddwl fod fy nhad wedi cael ei ddal am beth mor fach a dwyn ffowls.

DAFYDD: Fuoeh chi'n dwyn ffowls eriod, Malachi?

MALACHI: Do, Dafydd, do droeon. Fyddwn i byth yn edrych i lawr hyd yn oed ar ddull syml fel yna o ennill 'y nhamed bara. Ond, gyda pharch i goffadwriaeth hen w'r 'y nhad, 'rwy'n credu mod i wedi gneyd mwy o arian mewn noswaith cyn hyn nag a neise fe mewn whech mis wrth ddwyn ffow's. Ie, rhai syml oedd yr hen bobol. . . X Mam, 'run fath wedyn.

DAFYDD: Dioddefodd hi oherwydd 'i chrefydd?

MALACHI: 'Roedd hi'n dal cysylltiad agos â'r achos, Dafydd. 'Roedd hi'n casglu mewn hen gapel bach yn agos i gartre, ac felly, mewn ffordd o siarad, dipyn o flaen ei hoes.

DAFYDD: 'Rodd hi dipyn fwy ar y metals na'ch tad, te?

MALACHI: Wel, oedd, mewn ffordd o siarad, er, mor bell ag yr 'w i'n cofio, roeddem ni fel teulu yn byw yn weddol foethus pan oedd mam yn casglu yn yr hen gapel bach. Hwyrach fod bendith ar yr achos da. X Gyda llaw, beth oedd dy rieni di, Dafydd?

DAFYDD: Y—wel. Ma' nhw—ma' nhw wedi marw ych dou.

MALACHI: Ma'n rhai inne hefyd.

DAFYDD: Wel—a—mae'n well gen i beido a siarad am danyn' nhw ar hyn o bryd.

MALACHI: Rôn nhw'n bobol barchus gw'lei?

DAFYDD: O'n—wel o'n, mewn ffordd o siarad.

MALACHI: Mae'n beth rhyfedd felltgedig, os bydd pobol wedi byw'n barchus 'dyw i plant byth yn leico gweyd gair am danyn' nhw. Mae'r rhan fwyaf o bobol y wlad yma wedi byw mor respectabl nes bod i plant yn ofni i harddel nhw. 'Rwy' wedi diolch llawer fod 'y nhad ymron cymint o flagard a finne. . . . (Yn ddisymwth.) Be' ddiawl wyt ti'n moyn cysgu mewn sgubor fan hyn os o'dd dy rieni yn bobol barchus?

DAFYDD: Wn 'im. Falle taw am i bod nhw'n bobol barchus.

MALACHI: Be' ti'n feddwl wrth hynny?

DAFYDD: Mi ges i ddigon ar fod yn respectabl.

MALACHI: Câl digon ar fod yn respectabl? Be' nest ti, meddwi?

DAFYDD : Nage.
 MALACHI : Ladratest ti rywbeth?
 DAFYDD : Naddo.
 MALACHI : Beth te?
 DAFYDD : Dim. Laru ar fod yn respectabl.
 Dyna'r cwbl.
 MALACHI : Ie, ond beth wyt ti'n neyd fan hyn,
 heb geinog ar dy elw?
 DAFYDD : 'Rwy' wedi gweyd. Mi ges ddigon ar
 fod yn respectabl, a mi gliries mâs.
 MALACHI : 'Doet ti ddim yn deico dy waith,
 gw'lei.
 DAFYDD : Nag own.
 MALACHI : 'Rown i'n meddwl.
 DAFYDD : Ie, ond wyddoch chi beth o'dd 'y
 ngwaith i?
 MALACHI : Na wn i.
 DAFYDD : Bod yn respectabl.
 MALACHI : Bachan, 'rwy'ti fel tiwn rownd. Beth
 oet ti—clerc?
 DAFYDD : Nage. Mwy respectabl na hynny.
 MALACHI : Bancerc?
 DAFYDD : Nage.

MALACHI : Na. D'wyt ti ddim digon si-miw i
 fod yn fancerc. 'Doet ti ddim twrne?
 DAFYDD : Cyfreithiwr? Nage.
 MALACHI : Na, 'dos dim digon o'r diawl yndo ti
 i fod yn dwrne. Crynhoi insiwrin?
 DAFYDD (*yn ysgwyd ei ben*) : Na.
 MALACHI : Wel mâs â hi.
 DAFYDD : Pregethwr.
 MALACHI : Beth? Beth? Beth?
 DAFYDD : Bugel Methodist.
 MALACHI : Bugel Methodist! Bugel Methodist!
 Ystyria, Dafydd, 'y machgen i. Ystyria. 'Rwy'n
 hen wr penwyn, Dafydd. Paid a thwylo hen wr!
 DAFYDD : 'Dwy ddim yn ych twyllo chi. 'Row'n
 i'n fugel Methodist wythnos yn ôl.
 MALACHI : Wythnos yn ôl? Wythnos yn ôl?
 DAFYDD : Wythnos yn ôl.
 MALACHI : Dim erioed!
 DAFYDD : O'wn wir.
 MALACHI : Wel, alli di ddim mynd yn ol 'na?
 DAFYDD : 'Dwy ddim am fynd yn ol.
 (*Edrych MALACHI yn synfyfyrgar am ysbaid.* Yna

daw gwawr o ddeall cyfrwys i'w wedd. Ysgwyd e ben yn araf a dyry fath ar winc.)

MALACHI: Dafydd, fy mab. Dafydd, Dafydd. Pam na fyset ti'n i phriodi hi?

DAFYDD: Eh? Be'—be' chi'n feddwl?

MALACHI: Pam na fyset ti'n i phriodi hi, Dafydd. Pam na fyset ti'n i phriodi hi? Lodes ffein o'dd y lodes. Ddylet ti ddim o'i gadel hi.

DAFYDD: Be' chi'n dreio weyd? O, 'rych chi'n meddwl mod i wedi dod â rhyw ferch i drwbwl.

MALACHI: Odw i ddim yn iawn, Dafydd? Odw i ddim yn iawn?

DAFYDD: Nag ych. 'Rych chi'n hollol mâs o'ch lle.

MALACHI: Dafydd, Dafydd, paid a thwylo hen wr.

DAFYDD: 'Dwy'n twyllo dim ohonoch chi. Mi wedwn i wrthoch chi ar unwaith 'se chi'n iawn.

MALACHI: 'Nawr, Dafydd; 'nawr, 'nawr.

DAFYDD: 'Rwy'n gweyd yr union wir wrthoch chi. Os nad ych chi'n 'y nghredu i, peidiwch.

'Drychwch 'ma, leicech chi ddim bod yn bregethwr, leicech chi? Meddyliwch chi 'se chi yn fy lle i.

MALACHI: Pam na leicwn i, Dafydd? Pam na leicwn i?

DAFYDD: Wel—wn i ddim. Meddwl 'rown i.

MALACHI: O. Dafydd, Dafydd! Mae'n ened i yn dyheu am y cyfle. (*Yn cerdded oddiamgylch ac yn rholio'r geiriau oddiar ei dafod.*) Y Parchedig Malachi Jones, B.A., B.D.. Bydd y Parchedig Malachi Jones yn pregethu yma y Saboth nesaf! Pregethir yng nghyfarfod yr hwyr gan y Parch. Malachi Jones, B.A., B.D. Malachi Jones, o Gapel Seion! (*Yn dechreu "hwyllo."*) Pan fydd stormydd bywyd yn torri ar eich traws, pan ddaw'r ddrycin a'r tywyllwch, pwy rydd gysur i'r weddw a'r amddifad? Malachi Jones! Pwy fydd barod i godi cardotyn o'r llwch? Pwy rydd gynhorthwy i'r gweiniaid? Pwy ond yr hen Falachi. Fe wela i yr hen saint yn eu hwyllo hi drwy ddrycin y gaeaf i glywed yr hen Falachi Jones yn traethu'r genadwri.

DAFYDD: Ie, dyna'r ochor ych chi'n weld ohoni.

MALACHI (*heb gymryd sylw, ond yn gostwng ei lais o'r hwyl*): Effeithiol iawn. Odfa rymus iawn. Malachi Jones ar grefydd ac ymarweddiad. Yr hen

wragedd yn foddfa o ddagrau. (*Yn dechreu
"hwylio" eto.*)

"Arglwydd, gâd i'm dawel orffwys,
Dan gysgodau'r palmwydd clyd,
Lle'r eistedda'r pererinion
Ar eu ffordd i'r nefol fyd."

Ie, mae llawer i hen sant yn teimlo'n bur ddiolchgar
heno am gysgodau'r palmwydd. Chwi'r oedrannus
sydd o'm blaen i heno, mae ôl llafur a lludded y dydd
ar eich hwynebaw chwi; mae stormydd bywyd wedi
gadael creithiau ar eich gruddiau. Beth am dani,
mobol i? Beth am gysgodau'r palmwydd? Deuwch
gyda mi. Mae yno ffynnon risial i'r sychedig, a lle i
galon friw i orffwys—dan gysgodau'r palmwydd clyd!
(*Yn disgyn i'r modd cyffredin yn sydyn, ac yn edrych
yn ddifrifol ar Dafydd.*) Wyddost ti, neyd sport 'rown
i 'nawr, ond nid dyna fel y byswn i'n pregethu. Mi
fyddwn i wedi troi pob pechadur yn yr odfa cyn pen
hanner awr. Bachan, 'rwy'n credu y troiwn i'n hunan
cyn y diwedd!

DAFYDD: O ie, yr hen ffrind. 'Rych chi fel pob

un o'r tuallan yn i gweld hi'n bert iawn. Ma' digon
hawdd i chi sefyll fanna a chanu "Palmwydd clyd."
Ond fe gawsech lawer i neyd heblaw hynna.

MALACHI: Wel? Cysuro'r weddw a'r amddifad.
Dweyd gair wrth y bobol ieuainc. Cynnal ambell i
seiat. O, Malachi Jones yw'r dyn—.

DAFYDD: Ie, ie; mae hynna'n swno'n iawn. Ond
mi flinech yn gynt nag y meddyliech chi. Mi flines i
arni.

MALACHI Blino ar beth?

DAFYDD: Blino ar fyw'n respectabl—respectabl—
respectabl! Ddydd a nos. Un wythnos ar ôl y llall.
Y swydd fwya respectabl yn y wlad fwya respectabl
dan haul. Dyna sy'n damio'n gwlad ni. Nid culni.
Nid Piwritanieth. Mae tân mewn Piwritanieth.
'Does dim mewn *respectability*. Mae Cymry'r ganrif
hon yn byw mewn *frock-coat*, gorff ac enaid.

MALACHI: 'Nawr, mi fyswn i yn yng elfen mewn
frock-coat.

DAFYDD: Wisges i ddim un eriod—o leia, ddim
am 'y nghorff—nac am y'n ened chwaith. 'Rwy'n
credu y byswn i wedi gneyd llawer o waith mewn

cylch lle rôdd yna ddigon o ryddid a neb yn boddro dim shwt own i'n byw. Ond, fel bugel, down i ddim yn llwyddiant. 'Rown i'n gneyd popeth yn wahanol i bob pregethwr arall. 'Down i ddim yn hoff o gwmni pregethwyr, i ddechre. 'Rown i'n câl digon arnyn nhw. Doen nhw ddim a'u llaw ar byls y bobol ryw-sut. 'Dwy ddim yn i beio nhw chwaith. Mi ffeules i'n hunan.

MALACHI: Beth ddigwyddodd?

DAFYDD: O, mi âth popeth go whith. Mi dreies yn ddigon gonest, ond 'rodd gormod o Ebrill yndw i. 'Rown i'n rhoi gormod o *shocks* i'r saint—a ma' gwaith neyd hynny y dyddie hyn.

MALACHI: *Shocks* i'r saint!" Rwy'n leico hwnna. Dere gâl i clywed nhw.

DAFYDD: O, cofiwch chi, 'dwy ddim am ddweyd mod i'n iawn lawer tro. 'Rown i'n ddigon gonest yn y dechre. 'Rown i am gâl gafel yn nynolieth pobol. A mi gês i afel yndo fe lawer tro. Ond dim y teip mae pobol respectabl yn hoffi. 'Rodd gen i ormod o gydymdeimlad â'r dyn off y metals. ✕ 'Rown i'n i hoffi e am *i fod* e off y metals ✕ am nad oedd e'n respect-

abl. Lliw, a sport, a bywyd, a rhamant, a ienctid! 'Rodd gâs gen i furie moelion y capel. Mi addolwn yn well mewn eglws Gatholig brydferth.

MALACHI: Ond be' nest ti i boeni'r saint?

DAFYDD: O llawer o bethe. Ma' dyn yn mynd yn *rebel* gydag amser. Dyma engraifft. 'Rodd un o'm ffrindie i—un o'r rhai off y metals—yn cynnal dawns nos Sul yn rhywle. Mi'n heriodd i ddod yna ar ôl cwrdd. Mi es gam ymhellach: mi cyhoeddes hi yn y Seiat.

MALACHI: Beth am y—beth yw hwnna—dim y seiat—y Cwrdd Misol?

DAFYDD: Dyna chi'n gofyn cwestiwn 'nawr na fedra i byth ateb. Pan fydd ihyfeddode mawr y byd yn câl i croniclo mi fydd hwnna ar lawr.

MALACHI: Wedson nhw ddim un gair?

DAFYDD: Mi synnech chi mor ychydig. ✕ Mae'n anodd rhoi gwir *shock* i sgerbwd anghydfurfieth. ✕ 'Rown i wedi gorffen bod yn respectabl ers tro, a 'doedd dim a wnawn i yn 'i synnu nhw—os na wnawn i rywbeth fel dyn arall. 'Rown i mron bod yn respectabl o *unconventional*.

MALACHI: D'wyt ti ddim yn briod?

DAFYDD: Na. 'Rodd mam yn byw gen i. Mi fyswn i wedi clirio mâs ers llawer dydd onibai am mam.

MALACHI: Beth odd hi'n feddwl am bethe? Mab yn bregethwr, gw'lei. 'Rodd yr hen wraig yn go falch ohonot ti—eh?

DAFYDD: 'Dodd hi ddim yn hen wraig. 'Dwy ddim yn meddwl y gallse hi fynd yn hen.

MALACHI (*heb ddeall yn hollol*): O.

DAFYDD: 'Rodd hi'n ifanc, ifanc. 'Rodd hi'n ifancach nag own i. Fe chwarddodd mam i ffordd drwy ddigon o stormydd bywyd i ladd llawer un. (*A'i wyneb yn goleuo.*) 'Rodd twincl yn llygad mam ar i gwely angeu. Priodi? 'Doedd arna i ddim eise unrhyw groten yn crechwen yn fy ymyl i ar ol crafter meddwl a hiwmor mam.

MALACHI: Odd tipyn o natur crefydd ynndi?

DAFYDD: Odd. 'Rodd crefydd yn dwad mewn i bopeth gyda mam. Fe dorre mam fara-menyn yn grefyddol. 'Rodd hi'n chwerthin emyne. Fe fuodd farw'n ddisymwth.

MALACHI: Faint sydd oddiar hynny?

DAFYDD: Rhyw whech mis. Fe gadwes ymlân am dipyn. Ond—ond—dwn i ddim. 'Rodd rhyw wrthryfel yn y nghalon i yn erbyn pawb a phopeth. 'Rown i'n gneyd pethe gwyllt er mwyn câl y pleser o boeni'r pobol barchus, a mi gliries i mâs.

MALACHI: Shwt?

DAFYDD: Dydd Llun diwetha. 'Rown i fod i bregethu mewn lle o'r enw Llanfair Moyddin y Sabath hyn, a 'rown i wrthi yn ceiso gneyd pregeth pan ddath un o'r blaenried i mewn. Dyn gweddol ifanc. Dim un o'r hen deip. Un o'r dynion teidi, siw, respectabl 'ma sy'n mynd ar *nerves* dyn, ag oel ar i wallt ac ar i ened. Fe ddâth fan sipswn tu allan, ac wrth gwrs, fe wedes inne fod rhyw whant arna i fynd gyda nhw, a fe atebodd y scerbwd hyn, "Ie, Mr. Jones, mae rhyw ramant yn perthyn i'r bywyd yna. 'Rwy' wedi meddwl yn hunan yr hoffwn i dreulio pythefnos o wyle mewn carafan." Pythefnos o wyle! A finne'n dyheu am fywyd rhydd heb lyffethair, haf a gaeaf, am byth. Peth mowr yw rhyddid, Malachi!

MALACHI: Ise?

DAFYDD: Ie. 'Does dim ar y ddeiar fel rhyddid.

MALACHI : 'Rwy' wedi câl rhyddid i neyd y peth a fynnw'n i drwy'n oes, ond pan own i yn y jâl.

DAFYDD : Mawrhewch ych lwc.

MALACHI : Pe baet ti wedi câl cymaint ohono a fi fyset ti ddim yn meddwl cymaint am dano.

DAFYDD : O, Malachi, Mal'achi, 'dych chi ddim yn gwbod be' chi'n weyd. 'Does nemor i ddyn rhydd yn y wlad yma.

MALACHI : Paid a brewlan—.

DAFYDD : All dyn byth fod yn respectabl ac yn rhydd.

MALACHI : Beth yw'r gofidio am fod yn respectabl sy' arnat ti? Mi fyse getyn yn well gen i fod yn respectabl nag yn rhydd.

DAFYDD : Dim byth.

MALACHI : Wyddost ti ddim beth wyt ti'n weyd, â dy ryddid a dy garafan sipsis. 'Rwy' wedi byw mewn carafan sipsis. Y ffŵl—y ffŵl gwirion! Mae'n holl fywyd i wedi bod yn rhydd. 'Rwy' wedi byw fel mynnw i oddiar rwy'n cofio. 'Rwy' wedi cwrdd â phob math o fobol—lladron, puteiniaid, a saint. Pan own i'n ifanc 'rown i'n gwbod am pob merch werth edrych arni o Gaergybi i Gaerdydd. 'Rwy'

wedi bod yn berchen cannodd yn 'y nydd. A wyddost ti beth wy' wedi hiraethu am dano? Bod yn respectabl, ys y dwedest tithe.

DAFYDD : T—ah—t! Fe geisech ddigon arni whap iawn.

MALACHI : Cael digon arni! O, Dafydd, Dafydd. Malachi Jones, J.P. *Alderman* Malachi Jones ar y *County Council*. Y Parchedig Malachi Jones, B.A., B.D. 'Y machan bach i, wyddost ti ddim beth yw hi i fyw am oes heb fod yn aelod o bwyllgor! (*Clywir llais merch yn canu emyn.*) Chês i ddim cyfle eriod, Dafydd.

DAFYDD : Hei, lwc owt! Ma' rhywun yn dwad. (*Yn gorwedd ac yn crynhoi'r gwellt oddeutu iddo.*)

MALACHI : Gad ti iddyn' nhw. Chês i ddim cyfle eriod, weldi, i ddatblygu 'nhalent.

DAFYDD : Hei! Lawr â chi dan y gwellt, ne ma' nhw'n siwr o'n dala ni.

MALACHI (*yn ddigyffro*): Paid ti a gwylltu. Paid ti a gwylltu. 'Rwy'n gweyd wrthot ti—. (*Yn gweled fod Dafydd o'r golwg yn y gwellt, ac yn clywed sŵn traed yn neshau.*) Ga' i weyd nes ymlaen.

(Yn ei osod ei hun yn hamddenol ac yn gysurus i lawr yn y gwellt, ac yn diflannu rhyw eiliad cyn bod merch ifanc yn ymddangos â bwced yn ei llaw. Cerdd hi oddeutu'r sguhor am beth amser fel pe yn chwilio am rywbeth, ac yn mwman canu. Gwelir hi'n sengi yn beryglus o agos at gorff DAFYDD. Yna â yn ôl eto i'r drws.)

Y FERCH (yn gweiddi): Wiliam!

LLAIS: Helo!

Y FERCH: Yn y sguhor wedest ti?

LLAIS: Ie.

Y FERCH: Wel, 'dyw e ddim 'ma 'nawr.

LLAIS: Edrych di eto.

Y FERCH: Wy' wedi edrych.

LLAIS: Wel, fanna gadawes i e ddo! Mae e'n siwr o fod yng nghanol y gwellt. . . . Edrych di eto.

(Gwelir hi'n chwilio eto ac yn symud peth o'r gwellt. Daw ychydig bach o gorff DAFYDD i'r golwg, fel ag i beri credu ei bod yn debig o'i weled. Eithr gwelir hi'n ymadael ymhen ychydig.)

Y FERCH (wrth fynd allan): 'Rwy'n ffeutu a'i weld e'n un man.

MALACHI (yn cyfodi ar unwaith): Dyna own i'n weyd, na chês i ddim cyfle eriod—. Dafydd, cwyd bachan; ma' hi wedi mynd!

DAFYDD: Whiw! *Narrow shave.*

MALACHI: 'Swn i wedi câl cyfle fel ti. Chês i ddim cyfle eriod i ddatblygu nhalent. O! Mi neiswn i aelod ar Gownti Cownsil!

DAFYDD: Mae gâs gen i feddwl am bethe o'r fath. Ddealles i eriod yr ysfa sydd ar bobol i fynd ar rhyw sothach o bwyllgore.

MALACHI: 'Rwy'n leico i swn nhw Dafydd. 'Rwy'n leico i swn nhw. Meddylia 'nawr am fod yn aelod o'r *Urban District Council!*

DAFYDD: Ych y fi!

MALACHI: Neu'r *Town Council!*

DAFYDD: Dyn rhyfedd i chi.

MALACHI (yn dechreu'r dôn "bregethwrol" eto): 'Rwy'n hen, Dafydd, fy mab, ac wedi gweld cystuddie a helbulon. 'Rwy' wedi rhoi 'nhalent i'r byd mawr a nid i unrhyw fan neilltuol. 'Rwy' wedi tramwy Cymru benbaladr. 'Rwy' wedi gwerthu *watches*—rhaf aur, fe hyderwn—ym mhob ffair yng Nghymru. 'Rwy' wedi gwerthu cwd o sofrins am

hanner-coron i lawer hen wladwr syml—a ni obeith-iwn ei fod wedi ei gael yn llawn. 'Rwy' wedi enlarjo l'unie hen saint drwy Gymru gyfan. 'Rwy' wedi rhwymo cannoedd o'r "Tadau Methodistaidd." Mae yna lawer i ferch ieuanc wedi talu teyrnged o arian neu o aur i mi fel cydnabyddiaeth o'm llafur. Odw, Dafydd, 'rwy' wedi cael bywyd helbulus. A wedi'm llafur a'm lludded daw hyder ambell dro y câ farw'n aelod o'r *Board of Guardians*.

DAFYDD: Ie, ma'r pethe hyn yn swno'n ogon eddus iawn i chi.

MALACHI: Gogoneddus iawn, Dafydd; gogoneddus iawn.

DAFYDD: 'Drychwch 'ma, odych chi'n gweyd yn onest wrthw i y byse'n well gyda chi gâl setlo lawr yn dawel mewn rhyw dwll o dre, a châl rhyw anrhydedde felna na byw fel ag yr ych chi?

MALACHI: Llawer iawn gwell gen i, Dafydd llawer iawn.

DAFYDD: Leicech chi gâl byw yn dda?

MALACHI: 'Dwn i ddim am fyw'n dda, Dafydd. Fuodd dim awydd mawr arna i fyw yn dda eriod. Byw yn barchus yw'r peth mawr.

DAFYDD: O! 'Rych chi'n wath na'r un ohonyn' nhw. Pan gwrrddes i â chi rown i'n meddwl 'y mod i'n cwrdd â dyn rhydd o'r diwedd, heb rhyw sothach felna yn i galon e. . . .

MALACHI: Bod yn barchus yw'r peth mawr! Wyddost ti ddim beth yw byw dy oes fel un o'r scum, yn câl dy alw'n "Wil Watches Aur," a "Jack y Tân," a "Lleidir Tai Cyrdde." Ma' mwy o dalent gen i yn lein yn hunan—. Wyddost ti, mae lldewon ar hyd y ffeire wedi dysgu trics oddiwrthw i.

DAFYDD: Wel, dyna fe—.

MALACHI: Ma' mwy o dalent gen i na deg o aelode Senedd. Ond dim gronyn o barch i'r hen Falachi. Dim gronyn. Dim ond—. "Clowch y til. Ma' hwnna wedi dwad ffor' hyn eto." 'Roeddet ti'n sôn gynne am fyw'n dda. Wyt ti'n meddwl y ceiswn i barch 'swn i'n byw yn wir dda?

DAFYDD: Ma' amheueth am dani.

MALACHI: Oes. 'Rwyt ti'n iawn. Ma'r dyn sydd yn byw yn rhy dda ymron mor amhoblogedd a'r dyn sydd yn byw yn rhy ddrwg. Hanner ffordd ma'r parch, Dafydd; hanner ffordd. O, Dafydd! Mi rown i rywbeth am ddiwrnod mewn swydd barchus.

DAFYDD: Pam ma' nhw'n galw "Lleidr Tai Cyrdde" arno chi?

MALACHI (*ar ei wylia dwriaeth*): Pwy glywest ti'n gweyd hynny?

DAFYDD: Chi wedodd gynne.

MALACHI: O. Am mod i'n hoff o fynd i'r capeli. Mi adrodda i bregethe cyfan ar 'y nhof iti. Ma' nhw'n meddwl mai mynd yna i ddwyn 'rw' i. Ond ma' nhw'n mhell o'u lle. Ddyges i ddim mewn tŷ cwrdd eriod. Dim am 'y mywyd! Bachan, mi fyse na le i nhalent i mewn pwlpudd. Leicwn i gâl pregethu am un diwrnod, Dafydd, a neb yn gwbod pwy own i.

DAFYDD (*yn syn*): Leicech chi?

MALACHI: Neb yn gwbod pwy own i, Dafydd. Hen Falachi'r ffeire wedi ei wedd newid, a neb yn ei adnabod. A'r hen saint yn wylo tan y genadwri. A phob un yn parchu'r hen Falachi, a mwy na hynny, Dafydd,—finne'n i barchu e am y tro cynta yn 'y mywyd.

DAFYDD: Wyddoch chi beth wy'n feddwl, Mala

chi? Pe bai chi wedi dwad heibo i fi pan own i wrth y gwaith mi fysech wedi câl y cyfle.

MALACHI: O, Dafydd, Dafydd! Paid a thynnu dŵr o nannedd i.

DAFYDD: Bysech; bysech wir—wedi câl tro arni.

MALACHI: Ond y blaenoriaid, Dafydd! Wyt ti'n meddwl y rhoisen nhw'r "Lleidir Tai Cyrdde" yn ymyl y blwch casglu? Ond fyse dim eise bod ofan arnyn' nhw. Awn i â'r un ddime. Mi fyse gormod o ofan y Parchedig Malachi Jones arna i. Mi fyse'n werth i ti gâl clywed y bregeth, Dafydd. 'Rwy' wedi i phregethu hi ganwaith ar ochor yr hewl. 'Roeddet ti'n son gynne am fyw'n dda. 'Rwy' wedi bod ymron a throi'n hunan lawer gwaith â'r bregeth honno. Dyna'r unig bregeth gafodd effeth arna i eriod. (*Clywir sŵn canu, a bwced yn tincian, a thraed yn neshau.*)

DAFYDD: Hei! Clou, Malachi, ma' nhw'n dwad eto!

MALACHI (*heb gymryd sylw*): Ond chês i eriod gyfle i'w thraddodi hi; dim eriod.

DAFYDD: Malachi, ma' nhw wrth law!

MALACHI (*yn ei roddi ei hun i lawr yn hamddenol*)

yn y gwellt): Mi draddoda i ddarn o'r bregeth yna ti, Dafydd, ar ol i hon fynd allan.

(*Daw'r ferch ifanc i mewn eto. Cerdd oddeutu ysgubor am dipyn gan sengi'n beryglus o agos at y man lle y gorwedd DAFYDD. Saif o'r diwedd yn ei ymyl. Gwelir Dafydd yn symud ei goes yn araf iawn o'r ffordd. Clywir sŵn ceffyl a char yn gyrru i mewn i'r buarth oddiallan, ac yna'n sefyll. Symud y ferch ifanc yn ôl at y drws.*)

Y FERCH (*yn gweiddi*): Wiliam!

LLAIS: Hello!

Y FERCH: Ddâth y pregethwr?

LLAIS: Dim sôn am dano fe.

Y FERCH: Peth od na fyse fe'n anfon i weyd rhywbeth. Cwrdd gweddi fory eto, te.

Y LLAIS: Goreu i gyd. Fe gâ i orwedd yn y gwely fory.

Y FERCH: O'r pwdrin!

Y LLAIS: Os bosib y daw e ar i fotor-beic? Dyn ifanc yw e?

Y FERCH: 'Dwy'n gwbod dim. Dos neb yn nabod e ffor' hyn. . . . Faint o wellt wyt ti eise?

Y LLAIS: Dim ond llond côl. Ddo i lan i moyne os wyt ti am.

Y FERCH: Na, ddo i ag e mâs.

(*Symud yn ôl ac ymafael mewn coeled o wellt o ganol y llawr. Daw rhan o gorff DAFYDD i'r golwg. Dyry y ferch screch fechan a rhuthr yn ôl. Cwyd DAFYDD ar ei eistedd.*)

DAFYDD: Peidwch a châl ofan. Ma' popeth yn iawn.

(*Ni ddywed y ferch ddim, ond edrych yn syn.*)

DAFYDD: Fe gysges i ma' neithwr.

Y FERCH (*yn ceisio llefaru'n ddewr*): O, do fe? Pwy roddodd ganiatad i chi?

DAFYDD: Wel, rôdd hi'n hwyr, a dodd gyda ni—dodd gen i ddim un lle i orwedd. 'Dos dim gwahanieth gyda chi, os e?

Y FERCH: Wel, mi ddylech fod wedi dwad i ofyn yng nghynta.

DAFYDD: Rôdd hi'n hwyr arno ni—arna i. Dos dim gwahanieth gyda chi, os e? 'Dw' i ddim wedi mynd â dim oddiyma, na dim byd felni.

Y FERCH: 'Drychwch 'ma. Oeddech chi miwn 'ma pan ddois i miwn gynne?

DAFYDD: Own.

Y FERCH: Yn y gwellt fanna?

DAFYDD: Yn y gwellt fan hyn. Mi gês i ofar
dychrynlyd y byse chi'n sathru ar 'y mhen i.

Y FERCH: Wel, yn 'y ngwir i! . . . O dir cator
i. . . . Roech chi'n gorwedd fanna yn y gwellt?

DAFYDD: Fan hyn yn y gwellt.

(*Gwelir pen Malachi'n codi ac yn diflannu dro
chefn.*)

Y FERCH: Wel taw'n i'n manco!

DAFYDD (*yn gwenu*): Go lew, ond te fe?

Y FERCH: Go lew, yn wir!

DAFYDD: Ha, ha, ha!

Y FERCH (*yn gwenu*): Digon hawdd i chi
werthin. 'Se nhad 'ma nawr—.

DAFYDD: Lwcus taw chi sy 'ma. 'Rych chi
wherthin ych hunan.

Y FERCH: Nag w' i.

DAFYDD: Odych. 'Rych chi'n wên o glust
glust.

Y FERCH: Cewch ona chi!

DAFYDD: Ha, ha, ha, ha, ha!

Y FERCH: Ha, ha, ha! Hi, hi, hi! Cewch on

chi! Sh—. 'Se nhad yn ych clywed chi! 'Dyw
e ddim yn leico bod—y—dynion yn cysgu yn y tai
mâs.

DAFYDD: 'Dyw e ddim yn leico tramps, ych chi'n
feddwl?

Y FERCH: Wel, mae e'n disgwl iddyn' nhw ofyn
am ganiatad—(*yn* "rheolaidd" *unwaith eto*)—ac
eitha reit hefyd.

DAFYDD: *Quite right.* Tacle ofnadw yw tramps.

Y FERCH: Hy! Beth am danoch chi?

DAFYDD: 'Y merch fach i—.

Y FERCH: O! Thenciw!

DAFYDD: 'Rwy'n begian ych pardwn chi—fon-
eddiges, ddylaswn i ddweyd—.

Y FERCH: O, wir!

DAFYDD: Foneddiges. Maddeuwch i mi. Mae'n
anrhydedd gen i gael cyfarfod â chi yn y bore fel hyn.
Anaml iawn mae creadur anffortunus fel fi yn cael
yr anrhydedd o gyfarfod ag un mor deg a chi, mor
hawddgar, mor—mor—y—gynnar yn y bore.

Y FERCH: 'Drychwch 'ma—.

DAFYDD: Gyda phleser.

Y FERCH: 'Rych chi'n siwr o fod yn meddwl 'y mod i'n *soft* iawn, gwlel.

DAFYDD: Nagw wir. Dim o'r fath beth——. O Ma' cramp yn 'y nghos i——. (*Yn codi.*) Dim byd o'r fath beth. 'Rych chi wedi'n llonni i drwyddo! 'Rych chi wedi'n rhoi i mewn hwyl am y dydd 'Sw'n i'n câl y fraint a'r anrhydedd bob bore o'm hoes i gâl fy neffro gan un mor hawddgar, mor brydferth, mor llon, mor—mor—angyledd—os câ i ddefnyddio'r gair—a chi, mi fyswn i'n well dyn heddi.

(*A DAFYDD yn llefaru gwelir MALACHI o'r tu ôl yn gwerthfawrogi'r araith ac yn pwysleisio â'i law y gwahanol bwyntiau, e.g., "mor hawddgar," "mor brydferth," "mor angyledd," etc. Am DAFYDD, ni ŵyr yr edrychwyr ac ni ŵyr yntau, fe ddichon, a ydydd yn ddifrifol neu beidio. Y mae MALACHI o hyd yn llwyddo i ddiplannu ryw eiliad cyn ei weled gan y ferch.*)

Y FERCH (*yn arogl* "rhamant"): Beth ych chi, te?

DAFYDD: Crwydryn blin, foneddiges.

Y FERCH: Peidwch a ngalw i'n foneddiges. Merch ffarm, gyffredin 'w i.

DAFYDD: 'Rych chi'n foneddiges i mi. 'Dw' i ddim ond tramp.

Y FERCH: 'Rych chi wedi bod yn rhywbeth gwell.

DAFYDD: Nag 'w i. Pam 'rych chi'n meddwl hynny?

Y FERCH: Wrth ych siarad chi. A ma' golwg dyn respectabl arnoch chi.

(*Gwelir DAFYDD yn gwingo ychydig.*)

DAFYDD: Wel, tramp 'w i 'no. Dim ond tramp, yn cerdded o le i le, ac yn cysgu lle gall e.

Y FERCH: Os dim whant bod yn rhywbeth gwell arnoch chi?

DAFYDD: 'Wn 'im. 'Dw' i ddim yn cwrdd â rhai fel chi bob dydd.

Y FERCH: Pam? Beth 'rw' i wedi roi i chi?

DAFYDD: Gwên garedig yn y bore.

Y FERCH: Beth yw hynny?

DAFYDD: Llawer iawn. Mae e'n dwyn ffydd dyn yn y natur ddynol yn ôl. Pe bai pawb fel chi—wel, falle nad tramp fyddwn i.

Y FERCH: Wel, aliwch chi ddim treio bod yn rhywbeth gwell nawr?

DAFYDD: Beth?

Y FERCH: Daeth bachgen o'r *Homes* i weithio ffordd hyn rywbyrd. 'Dodd e ddim yn medru siarad hanner cystal a chi. Ond mi âth ati i weithio, a wyddoch chi beth yw e heddi?

DAFYDD: Na wn i.

Y FERCH: Pregethwr!

DAFYDD: Odych chi'n meddwl y gwnawn i bregethwr?

Y FERCH: Wel, mi fyse'n rhaid i chi ymroi ati a stydio. Ond fe allech neyd hynny, 'rwy'n siwr. Meddyliwch am droi o dramp yn bregethwr! Dyna gyfnewidiad!

DAFYDD: Ie. Bron cymaint a throi o bregethwr yn dramp.

Y FERCH: Ie. Meddyliwch chi am y peth. 'Drychwch 'ma. Geisoch chi fwyd y bore yma?

DAFYDD: Naddo.

Y FERCH: Wel, mi dreia i ddod â pheth lan i chi.

DAFYDD: O, peidwch a thrafferthu. 'Dwy ddim am i chi feddwl mai dyna—

(*Clywir llais yn gweiddi: "Catrin."*)

Y FERCH (*yn ateb*): Wel! (*Wrth DAFYDD.*) Arhoswch funud. 'Y nhad sy'n galw. (*Rhed i'r drws.*)

MALACHI (*yn codi ei ben eto, gan sisial yn uchel*): Plated o gig moch, Dafydd! Plated o gig moch! (*Yn diflannu.*)

Y FERCH: Mi ddo i lawr nawr, nhad. (*Yn dyfod yn ei hól.*) Grondwch! Mi dreia i ddod â bwyd lan mhen rhyw hanner awr, os câ i gyfle. Rhaid i fi fod yn go ofalus, achos 'dyw nhad ddim bolon i fi neyd rhywbeth fel hyn.

DAFYDD: Diolch yn fawr iawn i chi. Diolch yn fawr iawn. Fyswn i ddim yn ych trafferthu chi'n hunan, ond ma' gen i ffrind o hen wŷr lawr yr hewl 'na yn rhywle, a 'rwy'n siwr i fod e heb damed.

Y FERCH: Mi ddo i â digon i chi'ch dou. Ond peidwch a dangos ych hunan. Ddaw neb lan 'ma ond fi. Dydd da nawr. (*Yn myned at y drws.*)

DAFYDD: O! Un funud.

(*Y ferch yn troi.*)

Y FERCH: Wel!

DAFYDD: Beth yw enw'r lle hwn?

Y FERCH: Y pentre?

DAFYDD: Ie.

Y FERCH: Llanfair Moyddin.

DAFYDD: O! Pwy sy'n pregethu 'ma fory?

Y FERCH: Pam? Odych chi am ddwad i'r cwrdd?

DAFYDD: Y—na. Ych clywed chi'n gweyd rhywbeth wnes i gynne, wrth y drws.

Y FERCH: O. Mr. David Jones, Salem, Crug Gwyn. 'Dyw e ddim wedi dwad. Helodd e ddim ateb i lythyr 'y nhad, ond, wrth gwrs, falle daw e eto. Os whant arno chi ddwad i'r cwrdd?

DAFYDD: O nagos arna i, dim ond 'y mod i'n gofyn.

Y FERCH: 'Rwy'n siwr i fod e. Ofan ych dillad sy arno chi. Drychwch 'ma—.

LLAIS EI THAD: Catrin!

Y FERCH: Reit! 'Rwy'n dwad. (*Wrth y drws.*)
Fydda i lan mhen rhyw hanner awr. (*Allan.*)

(*Daw Dafydd yn ol yn fyfyrgar i ganol y llwyfan.*
Cwyd MALACHI ar ei draed ar amrantiad ac ysgwyd ymaith y gwellt.)

MALACHI: O, Dafydd, Dafydd! Ma'r dydd wedi gwawrio o'r diwedd! Ma'r diwrnod wedi dod!

Glywest ti be' wedodd hi? Llanfair Moyddin, 'y machan i, Llanfair Moyddin! O ho!

DAFYDD: Be' sy'n bod?

MALACHI: Be' sy'n bod? Y Parchedig Malachi Jones sy'n bod! Y Parchedig Malachi Jones! O, Dafydd, Dafydd, ma'r diwrnod wedi gwawrio.

DAFYDD: Be' chi'n mynd i neyd?

MALACHI: Pregethu, machan i. Pregethu nes bod yr hen saint yn wylo dagre. Y Bregeth Fawr, Dafydd! Y Bregeth Fawr!

DAFYDD: Ie, ond shwt? Ma' nhw'n 'y nisgwyl i.

MALACHI: Dyna sy'n fendigedig, Dafydd. Ma' nhw'n dy ddisgwyl di, a thithe ddim yn dwad. Beth wyt ti wedi neyd? Mi anfonest ti lythyr, ond do? i weyd dy fod ti'n methu a dwad, ond bod y Parchedig Malachi Jones newydd groesi o'r America, a'i fod e'n garedig iawn—ac yn y blân. (*Yn ddistaw wrtho'i hun, gyda mwynhad mawr.*) Y Parchedig Malachi Jones!

DAFYDD: Ie, ond 'dy'n nhw ddim wedi derbyn yr un llythyr oddiwrthw i.

MALACHI: Bydd hynny'n destun syndod mawr i mi pan gyrhaedda i. Rhaid fod y llythyr wedi mynd

ar goll, Dafydd. Edrych, os rhywun yn dy 'nabod di ffor' hyn?

DAFYDD: Dim ar a wn i.

MALACHI: Wel, cadwa di o'r ffordd.

DAFYDD: Ie, ond 'dyw pethe ddim yn câl i gneyd felna yn y'n henwad ni. Ma' rhywun yn siwr o weld—.

MALACHI: Gâd di hynny i fi. 'Dyw gwaith bach fel hyn ddim yn y byd i'r hen Falachi. Dim yn y byd. Mi fydd y trefniade yn berffeth. Mi fydd Malachi Jones yn pregethu yn y Capel nos 'fory. . . . O, mi fydd hi'n odfa rymus, Dafydd. Mi fydd yn odfa rymus. (*Yn ddisymwth.*) A pheth arall! Ma' wisg offeiriadol wrth law. Mae wrth law, Dafydd! Mae wrth law! (*Yn rhuthro i'r cornel ac yn ymafael mewn cwd.*) Hon sy gen i'n gwerthu watches. Feddylies i eriod y pregethwn i'n hon. (*Yn tynnu frock-coat a gwasgod ddu, a choler mawr a thei ddu allan o'r cwd ac yn eu gwisgo. Llefara y geiriau a ganlyn yn fwy difrifol nag arfer, a gwelir ei fod tan effaith teimlad.*) 'Rwyt ti'n meddwl y bydda i'n gneyd difyrrwch, ond 'rwyt ti'n mhell o dy le. (*Yn synfyfyrrio am ennyd, ac yna, yn araf, fel pe bai rhyw*

syniad rhyfedd wedi dyfod i'w feddwl.) Mi fydd rhywun yn teimlo grym y diwrnod hwn. . . . O, Dafydd, 'rwy' wedi hiraethu am hyn. Fe gei di weld yr hen Falachi wedi ei wedd-newid. Un diwrnod o draethu'r genadwri. Un diwrnod gyda'r saint. Un diwrnod o barch i'r hen Falachi.

DAFYDD: Malachi, odych chi'n siwr nad oes neb ffordd hyn yn ych nabod chi?

MALACHI (*mewn hwyl, a'i lygaid yn disgleirio*): Fydd neb yn y nabod i nos 'fory. Fydda i ddim yn nabod yn hunan. . . . Mae geiriau ein testun i'w gweled yn yr Efengyl yn ôl loan, yr wythfed bennod, a'r bymthegfed adnod. . . yn yr wythfed bennod, a'r bymthegfed adnod o'r Efengyl yn ôl loan. . . .

(*Disgyn y llen ac yntau'n llefaru.*)

LLEN.

ACT II.

Nos Sadwrn, yr un diwrnod. Cegin Fferm Cefn Eithin, Llanfair Moyddin.

Edrychir i mewn i'r ystafell drwy fur y lle tân, a felly rhaid awgrymu lle tân, pentanau, etc., ym mhe blaen y llwyfan. Dodrefnir yn y dull cyffredin. Mae sciw ar yr ochr chwith i'r lle tân, a chadeirio oddiamgylch iddo. Pan gyfyd y llen y mae burdd y cael ei arlwyyo ychydig i'r chwith o ganol y llwyfan. Dau ddrws sydd i'r ystafell, un i'r chwith, ym mur cefn, ac un tua phen pellaf y mur ar yr ochr dde. Arwain y cyntaf i mewn i'r tŷ, ac arwain yr olaf allan drwy borth bychan i'r buarth.

A'r llen yn codi, y mae WILIAM, bachgen ifanc tu phedair ar bymtheg oed, wrth y burdd yn darllen. Mae CATRIN, y ferch ifanc a welwyd yn y sgubor, yn brysur yn arlwyyo'r burdd, a thrwy yr Act yma ni anghofia hi y burdd a'r tegell a ferwa ar y tân.

Y mae awyrgylch brys a phrysurdeb drwy y rho gyntaf o'r act hon nes dyfod ANN ac ANGHARAD mewn.

CATRIN: Mi ddylet lanhau dy sgidie, Wiliam. Dylet wir.

WILIAM: Twff, twff!

CATRIN: Ie, nid twff yw e.

WILIAM: Gwastraff ar flacin.

CATRIN: O Wiliam, gronda. Cer i lanhau dy sgidie. Mae gâs dy weld ti fel hyn.

WILIAM: O gâd lonydd i fi ddarllen nawr. Mi âf i yn y funud.

CATRIN: Wel cofia di nawr te. Mi fydd y pregethwr yn meddwl mai'r gwâs wyt ti.

WILIAM (*â'i ben yn y llyfr*): Be' wâth am hynny? Mae'r gwâs yn ddyn cystal a phob un arall.

CATRIN: Odi, odi; ond nid gwâs wyt ti. A 'does dim eise gneyd cam-argraff ar fobol.

WILIAM: 'Rwyt ti'n llawn cymment dy ffyss am bregethwyr a nhad.

CATRIN: Mae gen i barch iddyn' nhw.

WILIAM: Pwy barch? Pam 'rwyt ti'n parchu pregethwyr yn fwy na neb arall?

CATRIN: Mi ddylen gael i parchu, Wiliam.

WILIAM: Pam?

CATRIN: Mae parch wedi bod eriod i bregethwyr yng Nghymru. 'Rwyd ti'n gwbod fod nhad yn parchu nhw, a bo mam yn i parchu nhw hefyd pan ôdd hi byw.

WILIAM: Odw.

CATRIN: Wel dyna fe te.

WILIAM: Ie, ond pam 'rwyd ti yn i parchu nhw?

CATRIN (*mewn tymer*): Am i bod nhw i fod i gwrthdaro i parchu.

WILIAM: 'Rwyd ti'n rhesymu'n glir iawn, ta beth. Beth yw'r pregethwr sy'n dwad 'ma heno—os yw e'n dwad? Hen gobyn yw e?

CATRIN: Na, dyn ifanc, 'rwy'n meddwl.

WILIAM: Dim stiwdent?

CATRIN: Nage os mai David Jones, Crug Gwyn sy'n dwad. Ond os helith e rywun yn i le, wyddo ti'n y byd pwy ddaw.

WILIAM: Wel, gobeitho mai nid stiwdent fydd.

CATRIN: Mae ambell i stiwdent yn pregethu'n go lew.

WILIAM: Nid i bregeth e sy'n 'y mecso i, ond siarad e yn y tŷ. Pwy ise i nhad sy i gadw'r pregethwyr byth a hefyd?

CATRIN: Wel, dwn i ddim. Mae'n dda i ni gâl cwmni dynion dysgedig fel hyn bob wthnos.

WILIAM: Ie, wel, falle dy fod ti'n leico clywed y stiwdents 'ma yn siarad fel Geiriadur Charles a 'Sboniad Matthew Henry wedi cnoco yn un, a châl Williams Bach y Siop a John Tŷ'n Rhewl yn câl i galw'n saint, ond 'dw i ddim.

(*Daw'r tad i mewn.*)

DANIEL EVANS: Wiliam, 'dwyd ti ddim wedi glanhau dy sgidie yto? Mi fydd y pregethwr yma yn y funud nawr. Mwstra, ngwâs i. (*Cyfyd WILIAM yn anfoddog.*)

WILIAM: Odydych chi'n meddwl y daw e?

DANIEL: Mae rhywun yn debig iawn o ddwad.

WILIAM: Meddwl 'rown i y byse fe wedi dwad y prynhawn yma.

DANIEL: Ie, wyddem ni ddim pryd hynny fod yna drên arall i'r Llest heno. Mae Twmi wedi mynd ers awr a hanner. Mae e shwr o fod bron cyrraedd 'nol. Odi'r tegil ar tân genti, Catrin? Mi fydd eise bwyd ar y pregethwr.

CATRIN: Odi, mae e 'mron a berwi.

DANIEL: Wel, symud yr hen grochan 'na. 'Does

dim ise i'r pregethwr weld y lle yn anniben.

WILIAM: Stiwdent fydd e, debig iawn?

DANIEL (*yn sarrug*): Be' wâth am hynny? Ma eise dangos parch iddo fe, ond oes e? Mwstra o Wiliam. (*A allan drwy'r drws.*)

WILIAM: O'r mowredd! Ma' hi'n boen i fy 'ma nos Sadwrn. Hei, Catrin, paid a nihuno i erby y cwrdd bore 'fory, nei di?

CATRIN (*braid yn llym*): Fe gawn i weld.

LLAIS DANIEL: Catrin!

CATRIN: Wel?

DANIEL: Pwy rwm wyt ti wedi baratoi i'r pregethwr?

CATRIN: Eh—! Y rwm ganol.

(*Clywir curo wrth y drws allan.*)

CATRIN: 'Uw! Dyma fe. Nhad!

WILIAM: Go drabits! (*Â allan.*)

(*Daw DANIEL EVANS yn ei ôl. Tyn CATRIN y ffedog oddiamdani a rhêd i'r drws. Saif DANIEL ar ganol llawr yn awyddus. Agorir y drws a daw GRUFFYDD WILLIAMS, un o'r blaenoriaid, i mewn. Dyn bach, llais main, wedi ei wisgo yn weddol barchus, ydy ef. Siopwr wrth ei alwedigaeth.*)

GRUFFYDD WILLIAMS: Fi sy 'ma, Catrin—he, he! Shwt ych chi 'ma heno? Odi'r pregethwr wedi dwad?

DANIEL: Dewch ymlân. Na, 'dyw e ddim wedi dwad yto. Rhyfedd iawn na fyse fe wedi hela i ddweyd rhywbeth.

GRUFFYDD: 'Dych chi ddim wedi clywed oddi-wrtho?

DANIEL: Dim gair.

GRUFFYDD: O, stiwdent, debig iawn; stiwdent.

(*Yn dyfod ymlaen at y tân.*)

DANIEL: Na, 'dwy ddim yn meddwl. Mi gwrrdes â Dic y Magwyr gynne, wedi dwad 'nôl â'r trap o'r Hendre, a 'rodd e wedi gweld rhyw bregethwr yn holi am y tren nesaf i'r Llest—hen ddyn, medde fe, taliedd yr olwg, a whisgeren wen. 'Dwn i ddim pwy yn y byd allse fe fod, os nag e'r hen Edwards, Soar Fach.

GRUFFYDD (*yn chwibanu*): Whiw! Ffydd ynte gweithredoedd. Dyna gawn ni gydag e. Mi clywes i e pwy ddiwrnod yn Hermon. Neu'r Mab Afradlon, falle.

DANIEL: Ie, 'dwy ddim yn gwbod mai Edwards yw'r dyn. Meddwl 'rown i. Falle taw Jones Penrhiwglomen yw e.

GRUFFYDD: O! Yr Arch yn nhŷ Obededom. Dyna odd gydag e yn y Tabernacl llynedd. Mae gydag e un ar lachawdwriaeth i'r neb a gredo, hefyd. 'Down i ddim yn i leico hi cystal 'n hunan.

CATRIN (*wrth y bwrdd*): 'Falle taw Mr. Davies. Seion, fydd e.

GRUFFYDD: O ho! O ho! Y claf wrth Lyn Bethesda.

DANIEL: Na, mae Mr. Davies yn Aberteifi 'fory. Meddwl 'rown i fod y ddau yna yn rhydd i fynd lle mynnon nhw. 'Dos dim posibil mai Jinkins Jerusalem, fydd e?

GRUFFYDD (*yn rhwbio ei ddwylo*): Wir! Un bach melys yw Jinkins. Un bach reit felys yw Jinkins. Y cwmwl tystion, fentra i â chi!

DANIEL: Mae gydag e un ar Unigrwydd y Cris-tion yn y byd.

(*Daw WILLIAM i mewn â'i sgidiau'n lân.*)

GRUFFYDD: Na, fe gadwith e honna i'r Gymanfa Sgolion, gewch chi weld. Y cwmwl tystion, neu Pôl

yn Athen fydd hi. Pôl yn Athen, falle wir. Mawr yw Diana yr Ephesied! He, he! Mawr yw Diana yr Ephesied. (*Yn synfyfyriol.*) Ie, un bach melys yw Jinkins. (*Clywir curo wrth y drws.*) 'Co fe! Mawr yw Diana yr Ephesied!

(*Y mae DANIEL wedi tynnu un esgid. Dyd hi yn ôl am ei droed yn frysiog. A CATRIN i'r porth tu allan a chlywir hi'n siarad. Saif y tri, ac edrychant yn awyddus tua'r drws.*)

DANIEL: Na. Nid dyna pwy sy' yna.

GRUFFYDD: Na. Mi fyse wedi dwad ag e miwn.

(*A WILLIAM gogyfer â'r drws i edrych.*)

WILLIAM: Dwy drampes sy 'na. Mae telyn neu rywbeth gyda nhw.

DANIEL: O bodder! Ma' nhw ddigon o farn. Gwêd bod dim eise dim arnon ni.

(*Daw Catrin i mewn.*)

CATRIN: Mae hen wraig a merch wrth y drws, a thelyn gyda nhw, am gâl ych gweld chi. Ma' nhw am gâl cysgu yn y sguor. Ma' nhw wedi blino, a'n ffeulu câl lle yn un man.

DANIEL: Fuodd rhyw dacle'n cysgu yn y sguor neithwr. Dwêd wrthyn' nhw am fynd mlân i'r Gelly.

Ma' nhw shwr o gael lle gyda John Morris. (Yn llwytho ei bib.)

CATRIN: Mae' hi'n bwrw glaw yn drwm, nhad.

DANIEL: Be' wâth am hynny? Fydda nhw ddim llawer glypach oddiyma i'r Gelly.

GRUFFYDD: Glywsoch chi, Daniel, Davies Bethel ar y gwahanieth rhwng trugaredd a thosturi? Wir, 'rodd e'n i tharo hi'n bert ofnadw'.

(Daw ANN ac ANGHARAD i mewn. Hen wraig dal, wedi gwargrymu ychydig bach yw ANN, a'r blynyddau o dywydd a phrofiad ar ei hwyneb melyn, penderfynol, a'i dull o lefaru yn peri iddi ymddangos yn hŷn o lawer nag yw hi mewn gwirionedd. Y mae iddi lygaid du, miniog. Wrth siarad cyfyd ei llais yn naturiol i rhyw fath ar fyrder, ac y mae pob brawddeg o'i heiddo yn tynnu sylw.)

Merch dal, garpiog ei dillad, ond bonheddig a thelediw iawn ei hosgo yw ANGHARAD. Ei phrif nodwedd yw rhyw fath ar ddiniweidrwydd, rhyw naiveté, yn codi mewn rhan o'i hanwybodaeth am bethau sydd gynhefin i bobl gyffredin. Y mae ei hwyneb hithau yn wrm gan dywydd, ac yn mynegi personoliaeth yn fwy na phrydferthwch.

Sylwer nad yw cyfeiriadau ANN ati fel "merch fach" i'w cymryd yn rhy lythrennol.)

ANN: Nosweth dda i chi bob un. Mae'n law mawr ar yr hewlydd, a ninne'n ffeulu cael lle. Dim un lle i orwedd tipyn a sychu.

DANIEL (yn amheus): Wel' 'does dim llawer o le yma i chi.

ANGHARAD: Gawn ni gysgu yn y tai allan? 'Ryn ni wedi dwad bellter mawr.

ANN: 'Ryn ni wedi cerdded wech milltir o ffordd. Wech milltir, a chario'r delyn. A glaw mawr yn sgubo'r hewlydd.

DANIEL: O ble doisoch chi?

ANGHARAD: O ffair Llanelwyn.

DANIEL: Ddoisoch chi bob cam o Lanelwyn heno?

ANGHARAD: Do. Fues i'n dawnsio'n y ffair a mam yn canu'r delyn.

ANN: Dawnsio a chanu, dawnsio a chanu o'r bore bach. A'r gwaed o'i hesgid hi heno.

WILIAM: Chi weles i'n dawnsio yn ffair y Llest bythefnos yn ol?

ANGHARAD: Ie. 'Rwy'n dawnsio'n y ffeire i gyd.

ANN: Chi bia'r ffarm a'r sgubor fawr. Mae gwaed o'i hesgid hi. Gwaed coch yn disgyn i'r hewl. Mae merch i wedi blino.

DANIEL: Wel, o'r gore. Dangos y ffordd i'r sgubor iddyn' nhw, Catrin.

ANN: 'Ryn ni am gysgu yn y sgubor fawr. Cam fach o wellt i'r ferch fach i orwedd, a'i phen ar y delyn, a finne wrth i hochr hi. Ma' i wedi dawnsio a blino, a 'rw' inne'n hen.

DANIEL: Wel, dyna fe. Cer â nhw mâs i'r sgubor, Catrin.

WILIAM: Weles i ddim *van* gyda chi yn y Lluest?

ANGHARAD: Mae'r *van* wedi torri a mae hi gyda'r saer yn Llanelwyn. Mi gerddon ni heno o Llanelwyn. Fues i ddim yn cerdded a chario'r delyn o'r blaen.

WILIAM: Odych chi wedi cario'r delyn bob cam o Llanelwyn?

ANGHARAD: Odw. Mae mam wedi blino, a mi gwmpodd ar ol dwad mâs o'r dre. A mi garies i'r delyn wedyn.

ANN (*yn dal y frawddeg olaf*): Ma'i wedi dawnsio

drwy'r dydd a chario'r delyn, a g'rym mawr ar i braich. 'Rwy'n rhy flinedig i gario'r delyn.

WILIAM: Odych chi'n dawnsio ymhob ffair?

ANN: Odyn ymhob ffair. Dawnsio a chanu'n y ffeire i gyd.

GRUFFYDD: Faint o arian neisoch chi heddi, nawr te?

WILIAM: Pwy ddysgodd chi i ddawnsio?

ANGHARAD: Mam nysgodd i ddawnsio.

WILIAM (*yn anghrediniol*): Hi?

ANN: Fi ddysgodd hi ddawnsio'n un fach. A ma' hi wedi dawnsio a chanu llawer yn y ffeire, ond chas hi ddim cerdded hyd heno. Dim ond heno gorfod iddi gerdded, am fod y *van* wedi torri.

CATRIN: Gwell iddyn' nhw gâl tipyn o fwyd.

DANIEL: O wel, fe alli fynd mâs â pheth iddyn' nhw i'r sgubor.

CATRIN: 'Does gen i ddim yn barod nawr. (*Wrth ANGHARAD*): Fe gewch chi ddwad 'nôl mhen hanner awr i moyn peth.

ANGHARAD: A spariwch chi dipyn o uwd i mam?

ANN: Mae bara gan y ferch fach yn y cwd. Donnen bara. Ond 'dalla i ddim a'i fyta fe. Ma hi'n medrud i fyta fe, ond mae e'n rhy galed i fi.

CATRIN: O'r gore, fe gewch dipyn o uwd. Dewch chi gyda fi.

ANN: Carn o wellt yn y sgubor, a ffioled o uwd, a mi gysga i'n dawel. 'Rwy' wedi blino.

(*Dilynant Catrin allan.*)

DANIEL: Mi gynhalie Catrin bob tramp a sipsi yn y lle pe bai hi'n câl i ffordd.

GRUFFYDD: Ddala i fod rheina wedi gneyd ceinog dda o arian heddi, 'lwch chi, am ddim yn y byd. A chithe a finne, Daniel, yn gorfod gweitho'n galed am yn tamed bara.

WILIAM: Mae dawnasio'n waith caled, Gruffydd Williams.

GRUFFYDD: Dim fel cadw cownt a phaco siwgir. Fe baces i ddeugen pwys y bore 'ma.

WILIAM: Cherddsoch chi ddim o Lanelwyn wedi hynny.

GRUFFYDD: Tyn wyt ti, Wiliam, ar fengoch chi; tyn wyt ti, Wiliam! Mae dy dad a finne'n gorfod

gneyd rhywbeth heblaw dawnasio a rhyw oferedd felni am yn bara caws.

WILIAM: 'Rodd hi braidd yn hen, serch hynny, i gerdded yr holl ffordd yna.

DANIEL: Wel, *ble ma'* Twmi a'r pregethwr?

GRUFFYDD: 'Dos bosib fod yna rywbeth o le?

WILIAM: Na, 'dwy ddim yn meddwl. 'Rwy' wedi weld e'n hirach na hyn.

(*Daw Catrin i mewn.*)

DANIEL: Welest ti nhw?

CATRIN: Ma' nhw yn y sgubor nawr. O——. Pwy? Twmi?

DANIEL: Ie.

CATRIN: Na, 'dos dim son am danyn' nhw. Hist! (*Yn myned at y drws.*) Mae 'na rywun yn dwad lan ar yr hewl. (*Yn myned allan ac yn cau'r drws. Yna ymhen ennyd daw yn ei hôl.*)

CATRIN: Mae Twmi a'r pregethwr yn dwad drwy'r clôs.

DANIEL (*yn ymestyn am ei slipanau*): Pwy yw e?

CATRIN: Wn 'im. Hen ddyn; gweddol dal.

GRUFFYDD: Edwards, wedi'r cwbul, falle?

(*Edrychant yn awyddus tua'r drws. Y mae DANIEL EVANS ar ei draed.*)

MALACHI (*tuallan*): O'r gore, machgen i, o'r gore. Dewch chi ag e mewn yma.

(*Clywir curo wrth y drws ennyd cyn i CATRIN ei agor. Daw MALACHI i mewn. Y mae cot fawr am dano a menyg am ei ddwylo. Edrych yn lled drws-iadus. Daw TWMI'R gwâs bach o'r tu ôl a gesyd y portmanteau i lawr ar y llawr. Tyn MALACHI'r faneg oddiam ei law ddé, a daw ymlaen i ysgwyd llaw â DANIEL.*)

MALACHI: Wel, dyma fi wedi dwad o'r diwedd. Mr. Evans, ynte?

DANIEL: Ie, siwr.

MALACHI: Mae'n dda iawn gen i gyfarfod â chwi, Mr. Evans. Fe gawsoch lythyr Mr. Jones, Crug Gwyn, debig iawn?

DANIEL: Naddo'n wir, dderbynsion ni ddim un gair.

MALACHI: *Dear me! Dear me!* Rhyfedd iawn. Mi ddwedodd Mr. Jones yn bendant y buase fe'n sgrifennu atoch.

DANIEL: O 'does dim gwahaniaeth—.

MALACHI: Sefwch chi, mae gen i lythyr arall oddiwrth Mr. Jones yn 'y mhoced—na, yn y bag—.

DANIEL: O peidiwch a hidio, Mr.—y—.

MALACHI: Malachi Jones yw'n enw i. Malachi Jones. Mae'r enw yn ddieithr i chi, debig iawn.

DANIEL: Wel—y—mae arna' ofn i fod e—.

MALACHI: Felly'n siwr. Felly, felly. Newydd groesi o'r America 'dw i, Mr. Evans, rhyw dair wythnos yn ol.

DANIEL: O America?

MALACHI: O America. O Salt Pit, Pennsylvania, tair mil o filltiroedd oddiyma.

GRUFFYDD: Dier mi!

DANIEL: Felly wir. Wel, dewch ymlaen, Mr. Jones, dewch ymlaen. Catrin, cymer got Mr. Jones.

(*Cymer Catrin y got, etc., oddiwrtho.*)

MALACHI: Mr. Daniel Evans ych chi, aie?

DANIEL: Ie.

MALACHI: O wel, mae'n hyfryd gen i gyfarfod â chi. Hyfryd iawn. (*Wrth Gruffydd.*) A chwithau?

GRUFFYDD: Gruffydd Williams 'w i, Mr. Jones, he, he!

DANIEL: Un arall o'r blaenoriaid, Mr. Jones.

MALACHI: Felly. (*Yn ysgwyd llaw.*) Mae dda iawn gen i gwrdd â chi, Mr. Williams. . . . Mae hyfryd gen i bob amser gael cyfarfod ag un o'r saint.

GRUFFYDD (*mewn ymdrech deg i ddweyd rhyw beth purpasol*): O wel—ie—O wel. Ie, siwr.

MALACHI: A dyma'r ferch, ife?

DANIEL: Ie, Catrin yw hi.

MALACHI: Wel, wel! Catrin, ife? (*Yn ysgwyd llaw*): A sut ych chi, merch i?

CATRIN: Da iawn, thenciw, Mr. Jones.

MALACHI: Da iawn. (*Yn edrych oddiwrth*

DANIEL *at* WILIAM, *ac yn ôl.*) A dyma'r mab?

DANIEL: Ie. Dere m'ân, Wiliam.

MALACHI: 'Rown i'n meddwl mod i'n gweld tebygolrwydd. A sut ych chi, machgen i?

WILIAM: Da iawn, diolch.

MALACHI: Dyna fe, dyna fe. Mae gyda chi blant taliedd, Mr. Evans.

DANIEL: Dewch ymlaen i'r gadair yma, Mr. Jones. 'Rych chi wedi blino.

MALACHI: Na, Mr. Evans, na. 'Rwy'n hysbys deithiwr, Mr. Evans; yn hen bererin.

GRUFFYDD: Dier mi!

MALACHI: Hen bererin. Wedi teithio dair mil o filltiroedd i nghyhoeddiad. Nid yn aml y cewch chi hynny, Mr. Evans.

GRUFFYDD: Nid dyma'ch cyhoeddiad cyntaf chi, Mr. Jones, wedi dwad yn groes?

MALACHI: Y cyhoeddiad cyntaf, Mr.—y—Williams; y cyhoeddiad cyntaf.

DANIEL } Faint sy—.

GRUFFYDD } Faint sy oddiar i chi fod yma ddwetha?

MALACHI: Blynyddau mawr; blynyddau mawr. 'Rwy wedi hiraethu am hyn. Un diwrnod gyda'r saint, unwaith yn rhagor. 'Roedd y'n enaid i'n dyheu am y cyfle.

(*A Wiliam allan yn dawel.*)

DANIEL: Pregethu oeddech chi yn America, Mr. Jones

MALACHI: Ie, siwr. Ie. Pregethu wy' wedi wneyd erioed. Pregethu i'r Saeson yn America, ond wedi'r cwbl, Mr. Evans, yng Nghymru mae'r saint, ynte?

GRUFFYDD (*gydag argyhoeddiad*): Ie, ie.

MALACHI: Ie, yng Nghymru mae'r saint. A chredwch chi fi, fethais i erioed gael rhywbeth allan o gynulleidfa o Gymry.

GRUFFYDD: Ie, ie. Rhywbeth byw, ond te fe Mr. —.

MALACHI: Y peth byw, Mr. Williams; y peth byw! Fe aethoch â'r gair allan o ngenau i. Fe dywedodd hen wŵr 'y nhad, coffa da am i enw e, pan ês i allan gynta': "Malachi, machgen i, Cymru yw gwlad yr hen bwerau."

GRUFFYDD: Ie, ie.

MALACHI: Ie, yr hen bwerau. 'Rwy wedi edrych ymlaen lawer at draddodi'r bregeth fydd gen i fory Ychydig feddylies i y byddwn i'n i thraddodi h mewn capel mor wledig a hwn.

DANIEL: 'Rych chi'n gyfarwydd â'r dref, Mr. Jones?

MALACHI: Wel, 'roedd rhyw bum cant o aelodau gen i yn Salt Pit, Pensyl'vnnia, Mr. Evans. Rhyw pu cant o aelodau.

DANIEL: Pum cant, oedd e?

MALACHI: Dim ond hynny, Mr. Evans. Eglwy

gymharol fach yn yr America, ond 'rwy'n hyderu mod i wedi gwasanaethu yn weddol deilwng ar y cyfan.

DANIEL: Mae 'ma bobol lled ddeallus ym Methlehem yma, Mr. Evans.

MALACHI (*gyda diddordeb*): Oes e?

DANIEL: O oes. Pobol y wlad, welwch chi. Ond pobol lled ddeallus, ar y cyfan.

MALACHI: Wel, fe hyderwn y medra i draethu'r genadwri gyda rhyw gymaint o arddeliad. Fel y dwedes i, 'rwy' wedi edrych ymlaen at y cyfle. Dyna paham y neidiais i at y cynnig pan ddywedodd Mr. Jones i fod e'n methu dwad. O, gyda llaw, y *letter of introduction*. (*Gyda gwên garedig i CATRIN, a chan bwyntio at y bag.*) Os byddwch chi mor garedig?

CATRIN: Y bag, Mr. Jones?

MALACHI: Os gwelwch chi'n dda. (*Yn agor y cwd ac yn dwyn allan lythyr.*) Dyma lythyr Mr. David Jones.

DANIEL: O. (*Yn ei agor ac yn darllen. Y mae GRUFFYDD yn edrych yn awyddus dros ei ysgwydd.*)

MALACHI: 'Dwn i beth yn y byd mawr mae Mr.

Jones wedi ddweyd. (*Gyda gwên.*) Gobeithio na yw e'n dweyd dim byd yn ddrwg am dana i, ha?

DANIEL: Nag yw'n wir. Dim ond clôd sy 'ma (*Yn darllen.*) O, 'rwy'n gweld ych bod chi wedi graddio, Mr. Jones.

GRUFFYDD (*yn taflu cip-olwg arall ar y llythyr*) O wir! B.A., B.D.! Nid yn aml ry'n ni'n ca dynion fel chi 'ma, Mr. Jones.

MALACHI: Odi Mr. Jones wedi rhoi hynna lawr? Mi fegianes arno beidio.

GRUFFYDD: Mi fydd yn rhaid cofio hynna wrth gyhoeddi yn yr Ysgol Su' bore fory, Daniel.

MALACHI: 'Rwy'n erfyn arno chi beidio, Mr. Williams.

DANIEL: Odi hi'n well gyda chi beidio, Mr. Jones?

GRUFFYDD: Mi fydd yn atyniad.

MALACHI: Odych chi'n meddwl hynny?

DANIEL: O bydd.

MALACHI: Wel, mae hi'n well gen i gael fy nghyhoeddi'n syml fel gwâs yr Arglwydd. Ond os bydd e'n unrhyw help i dynnu rhai i'r moddion 'rwy'n—'rwy'n folon—.

GRUFFYDD: O mi fydd yn rhaid i ni gyhoeddi: Mr. Malachi Jones, B.A., B.D.

MALACHI: Gwagedd o wagedd, Mr. Williams, gwagedd yw'r cwawl. Ac eto, dyna ddymuniad hen ŵr 'y nhad, oedd 'y ngweld i wedi graddio, a'i enillion prin e a âth â fi drw'r coleg.

DANIEL: Felly wir, Mr. Jones. Fel yna mae hi wedi bod yng Nghymru 'ma.

MALACHI: 'Roedd yr achos yn agos iawn at i galon e. 'Roedd crefydd yn y teulu.

DANIEL: Mae'n hawdd gweled hynny.

MALACHI: Sut hynny, Mr. Evans?

DANIEL: Wel—wel—dwn i ddim yn hollol, ond meddwl wnes i—.

GRUFFYDD: O, oes, oes. Ma' hi'n ddigon hawdd gweld ych bod chi wedi'ch dwyn fyny'n grefyddol, Mr. Jones. Dylanwade, Mr. Jones bach, dylanwade.

MALACHI: Ie, yr hen ddylanwade. Aelwyd grefyddol, Mr. Williams, aelwyd grefyddol. Mae e'n fendith fawr i ddyn wedi cyrraedd y'n oedran i.

DANIEL } Odi.

GRUFFYDD } Odi. O, odi!

MALACHI: Ac eto mae rhyw deimlad yn dwad

weithie, yr hoffwn i fod wedi cael tipyn bach rhagor o brofiad o'r byd tuallan—ychydig bach o ymylon bywyd, yn lle bod yn y gorlan drwy f'oes.

DANIEL: Yn y gorlan y mae'r defaid, Mr. Jones.

MALACHI (*gyda gwên garedig*): Ie—a'r wŷyn, Mr. Evans. . . . Odi, ma' hi'n glyd iawn yn y gorlan.

GRUFFYDD: Beth oedd eich tad, Mr. Jones?

MALACHI: Gwerinwr syml oedd 'y nhad, Mr. Williams, yn ceisio ennill ei damed bara drwy gario ffowls. Dyna ddull yr hen bobol, welwch chi.

GRUFFYDD } Ie, siwr.

DANIEL } Ie, ie.

MALACHI: 'Roedd 'y nhad yn hoff iawn o Bantycelyn. Lawer tro y clywais i e'n canu ei hoff emyn:

“ Arglwydd gad i'm dawel orffwys
Dan gysgodau'r palmwydd clyd.”

Mae yntau yn gorffwys erbyn hyn.

GRUFFYDD: Sefwch chi nawr, Mr. Jones, sefwch chi nawr. Nid Pantycelyn bia'r emyn yna?

MALACHI: Na, na; dweyd own i mai dyna oedd hoff emyn 'y nhad.

GRUFFYDD: O, ie! Meddwl wnes i, wrth ych clywed chi'n dweyd i fod e'n hoff o Bantycelyn.

MALACHI: Na, Mr. Williams, na. Fyswn i ddim yn debig iawn o gamsynied ar Bantycelyn. 'Roedd 'y nhad yn canu'r hen emynau yn rhy amal gyda'r nos.

DANIEL: Mae gyda chi Gymraeg da, Mr. Jones.

MALACHI: Pregethu, Mr. Evans; pregethu bob Sul.

DANIEL (*braid yn syn*): O! Ddealles i chi'n dweyd—.

GRUFFYDD: 'Rown i'n meddwl mai pregethu—.

MALACHI (*yn gweled ei gamsynied*): Ha, ha, ha! Ie, siwr, da iawn. Saesneg 'rwy' yn bregethu. Saesneg 'rwy' wedi bregethu am flynyddau mawr.

GRUFFYDD (*heb amgyffred*): O, ie?

MALACHI: Ie siwr, Saesneg bob Sul. (*Yn gyfrin.*) Ac eto, Mr. Williams, 'doedd nemor i Saboth yn mynd heibio heb i mi draddodi un bregeth yn y Gymraeg.

DANIEL: O, yn wir.

GRUFFYDD: Sut hynny te, Mr. Jones?

MALACHI: 'Roeddwn i'n trafaelu bedair milltir bob Sul o un capel i'r llall. A wyddoch chi sut 'rown i'n pasio'r amser? Pregethu. Pregethu yn Gym-

raeg, wrth yr hen saint yng Nghymru, a mynyddau creigiog Pennsylvania yn gwrando arna i.

GRUFFYDD (*yn llawen*): Da iawn, wir ; da iawn.

DANIEL : Ie, wir.

MALACHI : Pregethu, ar gefen y boni fach, a chael hwyl fawr arni weithe hefyd.

DANIEL : Y bregeth fyddech chi'n draddodi yn Saesneg y diwrnod hynny?

MALACHI : Na—na. Ambell waith fyddwn i'n gneyd hynny. Edrych ymlaen i'r dyfodol fyddwn i'n hoffi wneyd at yr amser y cawn i annerch yr hen saint unwaith yn rhagor. 'Rwy' wedi hiraethu am y diwrnod hwn.

DANIEL (*yn syn*): Felly'n wir!

GRUFFYDD : Dyna chi, wir!

MALACHI : Fel y brefa'r hydd, Mr. Evans, am yr afonydd dyfroedd. Odw, 'rwy' wedi pregethu y bregeth nos yfory o'r blaen, mewn ffordd o siarad, a llawer pregeth Gymraeg arall.

GRUFFYDD : 'Roedd yr hen fynyddau creigiog yn lwcus, Mr. Jones. Eh? He, he, he!

MALACHI : 'Dwn i ddim am hynny. Ond fe gawson glywed pob math o bregethau.

GRUFFYDD (*wrth ei fodd*): Ie, ie.

MALACHI (*yn synfyfyrrio*): Ambell i hen emyn Cymraeg.

GRUFFYDD } Ie, ie.
DANIEL }

MALACHI : Ambell i bwt o bregeth un o'r hen hoelion wyth.

GRUFFYDD (*mewn hwyl*): Ie, ie ; da iawn!

MALACHI : Joseph Tomos, Carno, Mr. Williams.

GRUFFYDD (*Yn rhwbio ei ddwylo*): Ie, ie.

MALACHI : Roger Edwards yr Wyddgrug, a rhyw eco o'i atal-ddweyd yn dwad yn ol o'r hen fynyddau creigiog, Mr. Williams.

GRUFFYDD (*yn nofio*): Ie, ie! Ie, ie! Da iawn, wir ; da iawn!

MALACHI : Ap Vychan, yr hen ôf du—

GRUFFYDD (*heb fod yn hollol mor frwd*): Ie.

MALACHI : Yr hen ôf du wedi mynd yn bregeth-wr. (*Mewn hanner hwyl.*) "Pan ddaw'r diwrnod hwnnw i'r cleddyfau gael eu troi'n sychau a'r gwaewffyn yn bladuriau, mi fydda' i'n meddwl y bydd hi'n brofedigaeth i minnau droi i'm hen grefft yn ol." Yr hen hoelion wyth. i chi!

DANIEL } Ie, ie. Yr hen hoelion wyth.
GRUFFYDD } . . . Ie. . . . Ie, siwr.

(Distawrwydd am ychydig. Daw CATRIN i mewn ac eistedd wrth y tân.)

CATRIN: Mae swper bron bod yn barod, nhad.

DANIEL (yn hanner codi): O we!—

MALACHI: Faint o gynhulliad ych chi'n ddisgwyl nos yfory yn y capel?

DANIEL: O, 'ryn ni'n arfer cael cynhulliad da iawn.

MALACHI: Odych chi?

GRUFFYDD: O odyn, where teg; da iawn. Fydd na lond lle 'co os clywa nhw fod dyn fel chi'n pregethu, Mr. Jones.

MALACHI: Felly wir.

(Clywir curo wrth y drws. Cyfyd CATRIN ac â i'w ateb.)

GRUFFYDD: Pwy sy 'na nawr?

DANIEL: O'r drampes 'na, debig iawn.

MALACHI: Trampes, ife, Mr. Evans?

DANIEL: Ie. 'Ryn ni câl pwer o honyn' nhw'n ddwad i gysgu yn y tai mâs, a ma' Catrin wedyn yn rhoi lot o gefnogeth iddyn nhw.

MALACHI: 'Rown i'n cael pobol fel yna yn amal iawn i wrando arna i ym Mhensylvania. A 'roeddwn i'n falch o'u cael nhw, Mr. Evans.

DANIEL (yn syn): Felly wir!

MALACHI (yn ddisrifol): Wyddoch chi . . . hoffwn i cael nhw i gyd . . . i gyd. Y cloffion a'r deillion, y crwydraid o'r prif ffyrdd a'r caeau. Nid y rhai parchus yn unig, ond y rhai sydd heb wybod beth yw parch gan ddynion, ac heb le i roi pen i lawr. (Yn codi ei ben ac yn gweled ANGHARAD yn dyfod i mewn tu ôl i CATRIN.) Ie, y rhai hyn, Mr. Evans. (Edrych braidd yn syn ar ANGHARAD am ennyd.)

DANIEL (braidd yn drwsgl): Ie—wel, mi fyse'n dda iawn i câl nhw i ddwad.

GRUFFYDD: O byse. O byse.

DANIEL (yn troi'r siarad): Sefwch chi i gâl tamed o swper, Gruffydd Williams?

(A Catrin i mewn i'r tŷ drwy'r drws ar y chwith.)

GRUFFYDD: Na, na; na wir, dim diolch. Ma'n rhaid i fi fynd. 'Rwy' wedi'r amser yn barod.

DANIEL: Wel, mi ddwa i gyda chi mâs i'r clôs.

Ma' arna i ise towli golwg ar y da. Fydda i 'nôl yn y man, Mr. Jones.

MALACHI: Popeth yn iawn, Mr. Evans, popeth yn iawn. Nos da, Mr. Williams.

GRUFFYDD: Nos da, Mr. Jones; nos da. 'Roedd yn dda iawn gen i gwrdd â chi, da iawn.

MALACHI: Mi gawn gwrdd yfory eto, Mr. Williams.

GRUFFYDD: Cawn siwr; cawn. Nos da, Mr. Jones.

(A DANIEL a GRUFFYDD allan. Edrych MALACHI yn synfyfyriol a gyda diddordeb ar ANGHARAD.)

MALACHI: Cymraes?

ANGHARAD: Ie.

MALACHI: Ffair Llanelwyn?

ANGHARAD: Ie.

MALACHI: Pwy lot?

ANGHARAD: Beth?

MALACHI: Pwy gang? Jackson? (Edrych ANGHARAD yn ddi-amgyffred.) Gyda pwy ych chi? Pwy ych chi'n ddilyn?

ANGHARAD: Dawnsio'r 'rw' i gyda mam, a mam yn canu'r delyn.

MALACHI (*yn anghrediniol*): Dawnsio?

ANGHARAD: Ie.

MALACHI: Ar yr hewl?

ANGHARAD: Ie. Fi sy'n dawnsio a mam yn canu'r delyn.

MALACHI (*yn syn*): Dawnsio? Dawnsio? Pwy ych chi'n nabod? Murdoch?

ANGHARAD: Pwy?

MALACHI: Jeffries, te? 'Rych chi'n nabod Jeffries?

ANGHARAD: Nad w' i.

MALACH: Wel, pwy ych chi, te?

ANGHARAD: Angharad yw'n enw i, a Ann yw enw mam.

MALACHI: Ann? . . . Ann, wedsoch chi?

ANGHARAD: Ie.

(Edrych MALACHI arni yn synfyfyriol am ennyd. Yna—.)

MALACHI: Ble chi'n aros heno?

ANGHARAD: 'Ryn ni'n cysgu yn y sgubor.

MALACHI: 'Dych chi ddim yn mynd mlân i Red Hill?

ANGHARAD : Ble ma' hynny?

MALACHI (*yn anghrediniol*) : Y Red Hill. Jack McBee?

ANGHARAD (*heb ddeall*) : 'Dwy ddim yn gwbod.
(*Edrych MALACHI yn syn arni.*)

MALACHI (*hanner wrtho ei hun*) : Wel, wel, 'rown i'n meddwl mod i'n gwbod y cuts i gyd.

(*Daw CATRIN i mewn â'r uwd, ac yna allan gydag ANGHARAD. Edrych MALACHI 'n syn ar ei hôl. Yna, gydag ystum un yn gyrru rhywbeth anghysurus allan o'i feddwl, ysgwyd ei ben yn gyflym. Daw ymlaen i gyfeiriad yr edrychwyr. Saif am ennyd fel pe yn disgwyl rhywun i ddychwelyd.*)

MALACHI : Ble mae'r hen saint i gyd? (*Edrych yn hamddenol o'i amgylch. Gwêl wasgod WILIAM wrth gornel y sciw. A ymlaen a thyn allan oriawr aur a chadwyn, ac edrych arnynt yn synfyryiol. Ysgwyd ei ben yn araf.*) Dim yng ngwydd y pregethwr, Malachi; dim yng ngwydd y pregethwr! (*Gesyd hi'n ôl. Clywir curo wrth y drws.*)

MALACHI : Dewch i mewn.

(*Y mae ennyd o ddistawrwydd. Yna agorir y drws*

a daw DAFYDD i mewn. Saif yn syn o weled MALACHI ar ei ben ei hun.)

MALACHI : Dafydd! Dafydd, fy mab!

DAFYDD : Odych chi wrth ych hunan?

MALACHI : 'Rwy' wrth fy hunan, Dafydd; wrth fy hunan. O ble doist ti, Dafydd?

DAFYDD : Dwad i holi am ddiferyn o ddwr poeth wnes i, a meddwl falle y cawn i'ch gweld chi . . . Shwt mae'r gwaith newydd yn mynd ymlaen?

MALACHI : Pwy waith newydd, Dafydd?

DAFYDD : Gwaith pregethwr.

MALACHI : O . . . Ie, gwaith newydd. Na, Dafydd. Dydd Llun fydda i wrth waith newydd. 'Rwy'n teimlo yn hen gyfarwydd â'r gwaith hwn. 'Rwy'n reit gartrefol gyda'r saint, Dafydd.

DAFYDD : Faint o gelwydde ych chi wedi ddweyd heno, Malachi?

MALACHI : Dim un, Dafydd.

DAFYDD : 'Roisoch chi ddim tipyn o hanes ych gyrfa bregethwrol iddyn' nhw?

MALACHI : Do, Dafydd; do.

DAFYDD : Wel?

MALACHI (*newydd amgyffred*): O! 'Nawr 'rwy'n dy ddeall di. O, Dafydd, Dafydd, pam ddoist ti yma i'm hatgofio i mai celwydd 'rown i'n weyd, a minnau mor glyd yn y gorlan? Ie—wel—ie. Dafydd, a wyt ti'n digwydd bod yn gwybod a oes yna fynyddau creigiog ym Mhensylvania?

DAFYDD: Wn i ddim. Chlywes i ddim son.

MALACHI: O wel, rhaid mai mynyddau ffigyrol oeddynt. (*Yn frwd.*) Dafydd, Dafydd, lle bendigedig yw hwn! Mae 'na barch yn i hwynebe nhw, Dafydd; mae 'na barch yn i llais nhw. Oes, mae 'na barch i'r hen Falachi heno . . . Ddoi di i nghlywed i'n pregethu, Dafydd.

DAFYDD: Mae arna i ofan y bydd yn fwy diogel i fi gadw draw.

MALACHI: Fe gei golled Dafydd; fe gei golled. Fe wnai lês mawr i ti. . . Mae wedi gneyd llawer o lês i fi'n barod.

DAFYDD: Wel, Malachi, 'rych chi'n gwbod y cytundeb: dim trics ar fobol y lle yma!

MALACHI (*yn sarrug*): Am beth wyt ti'n son? Wyt ti'n meddwl y beiddwn i? Mae'r wisg offeiriadol yn rhy drwm ar y'n ysgwyddau i.

DAFYDD: O, da iawn.

MALACHI (*yn ddifrifol*): 'Rwyd ti'n credu o hyd mai difyrrwch yw'n amcan i—neu wneyd arian. Ond 'rwyd ti 'mhell o dy le. 'Rwy wedi aros yn rhy hir cyn traddodi'r bregeth hon i wastraffu nghyfle. Pregethu fydda i'n neyd, a dim ond hynny. Pregethu â'm holl enaid. (*Yn ddwys.*) Dafydd, 'does genti ddim amgyffred fy nheimplade i heno, na shwt pregetha i nos 'fory. . . . Mi fydd rhywun yn teimlo effaith y bregeth hon.

DAFYDD (*braidd yn syn*): Synnwn i ddim, wir!

MALACHI (*yn fyfyrionol*): Peth rhyfedd mod i'n hen ŵr yn gwybod mwy am freuddwydio na thi.

DAFYDD: Wel, 'dwn i ddim a odyd chi'n iawn fanna, Malachi.

(*Clywir swm tuallan a daw DANIEL i mewn.*)

MALACHI: Mae'r brawd ieuanc 'ma am gael ychydig o ddwr poeth.

DANIEL: O. Rhaid iddo fe aros dipyn bach. . . . 'Roedd yn ddrwg gen i ych gadel chi fel hyn, Mr. Jones.

MALACHI: Popeth yn iawn, Mr. Evans. 'Rown i'n leico cael munud fach i fi'n hunan.

DANIEL : Tebig iawn, Mr. Jones. . . . Fe gewch chi rŵm y ffrynt ar ôl swper i edrych dros eich pregeth, os leicwch chi.

MALACHI (*yn dawel*): Os gwelwch chi fod yn dda, Mr. Evans. Mi hoffwn i gael rhyw awr neu ddwy i edrych dros y bregeth.

LLEN (*yn araf.*)

ACT III.

HWYR Y SABOTH CANLYNOL.

Y mae rhan o fur Capel Bethlehem, Llanfair Moyddin at wyneb yr edrychwyr ac yng nghefn y llwyfan. Y mae man gwyrddlas o flaen mur y capel yn gogwyddo i gyfeiriad yr edrychwyr. Y mae'r ddwy ffenestr a welir gan yr edrychwyr wedi eu cau. Y mae swm y gwsanaeth i'w glywed, ond ni ddaw geiriau'r pregethwr yn eglur hyd oni agorir un o'r ffenestri yn nês ymlaen.

Gwelir un neu ddau o'r bobl yn brysio i'r cyfarfod, ar draws y llwyfan, fel rhai sydd eisioes yn ddiweddar.

Yna, ychydig wedi i'r olaf ohonynt fyned heibio, daw ANN ac ANGHARAD i mewn—un yn cludo telyn fawr a'r llall stôl fechan. Eistedd ANN ar y stôl ac ANGHARAD ar garreg yn ymyl.

ANN: Ddaw neb ffordd hyn i glywed y delyn.

ANGHARAD: Pedwar swllt a saith ceinog a dime.

ANN: Pedwar swllt a saith ceinog a dime.

ANGHARAD: A bara a chig moch a the a ffioled o uwd.

ANN: Ffioled o uwd. Tipyn o sucen, tipyn o uwd, neu dipyn o lymru yw bwyd hen wraig dy fam.

ANGHARAD: A mi ddawnsies i am ddime a chwyro esgid i'r crydd bach, cam.

ANN: Faint roddodd y ffarmwr tew ar y ceffyl i ti?

ANGHARAD: Tair ceinog, a dime o lwc.

ANN: Faint gês ti gyda'r ffeirad?

ANGHARAD: Ceinog am ganu'r delyn.

ANN: A bara a chig moch a the gyda'r ffarmwr ifanc am ddawnsio. . . . Ond sucen, neu dipyn o uwd, a thipyn o lymru yw bwyd hen wraig dy fam.

ANGHARAD: Beth yw'r lle hyn, mam?

N.B.—Os oes modd, defnyddier telyn yn yr Act yma, eithr os yw'n hollol anghyfleus gellir defnyddio'r crwth, a bod yn gynnil wrth newid y ddialog i gyfateb.

ANN: Capel. Ddaw neb ffordd hyn i glywed y delyn.

ANGHARAD: Be ma' nhw'n neyd yn y capel, mam?

ANN: Ddawnsiest ti am ddime i'r crydd bach cam, a gwyrdd e dy esgid di. Dime am ddawnsio a cheinog am ganu'r delyn. Ddawnsies i erioed am ddime.

ANGHARAD: 'Roeddech chi'n dawnsio'n well na fi.

ANN: 'Rown i'n dawnsio'n well na phawb, a sgidie melyn am 'y nhraed. A fi ddysgodd i tithe. A 'rwyd ti'n dawnsio am ddime. . . . A sucen, uwd a lymru yw bwyd hen wraig dy fam heddi.

ANGHARAD: Be ma' nhw'n neyd yn y capel, mam?

ANN: Addoli Duw, a phregethu, a chanu. A ma'r merched ifenc yn gwisgo, a'r bechgyn yn spio drwy'u bysedd. Dowla nhw ddim ceinog i ti pan ddon' nhw allan. . . . Ddaw neb ffordd hyn i glywed y delyn.

ANGHARAD: Odyn nhw'n canu'n y capel?

ANN: Odyn ma' nhw'n canu. 'Dyn nhw'n dawnsio dim.

ANGHARAD: Canwch y delyn, mam, a mi ddawnsia i.

ANN: Mi ddawnies i o flaen y brenin â sgidie melyn am 'y nhraed. . . . Mi gana i'r delyn, ond ddaw neb ffordd hyn i wrando.

(Dechreu hithau chwarae, ac yn fuan wedi iddi ddechreu cwyd ANGHARAD ar ei thraed a dawnsia am ychydig rhyw ddawns ryfedd, neilltuol o brydferth a swynol. Ar yr un pryd clywir sŵn o'r capel, yn awgrymu fod rhywun yn gweddïo, ond ni ddeallir y geiriau. Gorffen yr hen wraig yn ddisymwth, a chau ei llygaid. Daw'r llais ychydig yn fwy tanbaid. Gellir dychmygu oddiwrth dôn y llais ei fod yn hwyliog.)

ANGHARAD: Rhowch y delyn i fi, mam.

(Ni chymer ANN sylw. Dwg ANGHARAD y delyn o'i dwylo a dechreu ei chanu'n isel. Clywir llais y pregethwr fel rhyw gyfeiliant i'r delyn mewn cywair is. Distawa'r gweddïo ychydig o flaen y delyn. Egyr yr hen wraig ei llygaid ac ymasael yn y delyn.)

ANN: Mae un o'r tanne'n eise. Mi fydd yn rhaid iti ddawnsio'n hir i dalu am danne'r delyn.

ANGHARAD: Ma' nhw'n ddistaw yn y capel, mam.

ANN: Mi fydd yn rhaid i ti ddawnsio 'fory yn y ffair. Dawnsio a chanu i dalu am danne newydd.

ANGHARAD: Mi ddawnsia i i'r bobol sy'n y capel pan ddon' nhw allan. Fues i erioed mewn capel, mam.

ANN: Ches' ti ddim mynd i'r capel! 'Dyw pobol y capel ddim yn hoffi dawnsio. . . . Ddawnsies i erioed i fobol y capel.

ANGHARAD: Be ma' nhw'n neyd yna 'nawr, mam?

(Yn ddisymwth clywir y bobl yn y capel tu ôl yn canu'r dôn "Llydaw," ar y geiriau, "Os gwelir fi, bechadur." Ni chymer ANN sylw. O'r braidd y dychmygir ei bod yn clywed. Eithr daw rhywbeth rhwng syndod a llawenydd i wyneb ANGHARAD. Dechreu symud ei chorff i ganlyn y miwsig, ac o'r diwedd cwyd ar ei thraed a dechreu ddawnsio drachefn gan symud i ganlyn curiadau'r emyn. Gorffen ddawnsio pan orffenna'r emyn.)

ANGHARAD: Odych chi wedi blino, mam?

ANN: 'Rwy'n deffro'n y bore wedi blino. 'Rwy' wedi blino ers blynydde maith.

ANGHARAD: Mi ddawnsia i'n hunan yn y ffair 'fory.

ANN: 'Rwy' wedi canu'r delyn a dawnsio llawer Fi ddysgodd i ti ddawnsio. . . . Bydd yn rhaid cael tanne newydd i'r delyn.

ANGHARAD: Mi gana' i a mi ddawnsia i i'r bobol sy'n y capel pan ddon' nhw allan.

ANN: Ddawnsies i erioed i bobol y capel. Dawnsio wnês i mewn sgidie melyn. 'Roedd cannoedd yn edrych arna' i, ac yn taro'u dwylo ar ôl i fi orffen . . . Mi fydd yn rhaid i ti ddawnsio dy hunan cyn bo hir.

ANGHARAD (*heb ddeall ei hystyr*): Mi ddawnsia i'n hunan yn y ffair 'fory, a chanu.

ANN: Pwy ddysgodd i ti ganu? Nid y fi. Fedrwn i ddim canu.

ANGHARAD: Fe ddysgodd dyn dieithr ar hewl Llanelwyn dôn i fi. Fe gana' i honno'n y ffair. (*Yn canu.*)

“ Blodeuodd dail ar y gangen werdd
Pan ddawnsiodd Crist ym mlodau'r maes ;

Diferodd y gwllith o'r glaswellt llaes,
Plygodd y pîn yn dannau cerdd.

A Duw a leddfodd boen y byd.
Disgleiriodd seren yn y nen ;
Daeth cwsg i enaid Magdalen,
A chwarddodd baban yn ei grud.”

(*A'r ymgom uchod yn myned ymlaen daw weithiau sŵn o'r capel fel sŵn dechreu pregethu.*)

ANN: Dawnsio a chanu. Dawnsio a chanu. Ond canu wnan nhw ddiwrnod yr angladd. . . . Fues i ddim yn canu erioed.

ANGHARAD: Pwy ôdd Crist?

ANN: Dawnsio wnês i. . . . Mae'n dawel iawn fan hyn. Mae awel yn dwad drwy ngwallt i.

ANGHARAD: Mae'n bryd i chi gâl bwyd, mam.

ANN: Fe gei di fwyd heno. Fe gês ti gig moch gan y ffarmwr ifanc am ddawnsio. Alla i ddim bwyta cig. Dim ond ffioled o uwd.

(*Distawrwydd am ennyd. Clywir llais y pregethwr yn fwy tanbaid.*)

ANGHARAD: Pryd y canan' nhw eto, mam?

ANN: 'Dwn i ddim. 'Dwn i ddim am ganu.

ANGHARAD: 'Roen nhw'n canu gynne a finne'n dawnsio.

ANN: Fe gei di ddawnsio 'fory. 'Does neb yn dwad ffordd hyn i wrando.

ANGHARAD: Mae'n well gen i ddawnsio â neb yn edrych. Dawnsio a chanu â neb yn edrych.

ANN: Mae eisie tanne newydd ar y delyn.

ANGHARAD: Fe ddawnsia i'n y ffair 'fory.

ANN: Fi a ddysgodd iti.

ANGHARAD: Weles i erioed mohonoch chi'n dawnsio.

ANN: Mi ddysges i ti, a ddawnsies i ddim wedi hynny. 'Rown i'n dawnsio a thithe ar gael dy eni. Pan gadawodd dy dad fi. Nes es tithe hefyd yn boen i fi, a finne'n dawnsio.

ANGHARAD: Weles i neb erioed yn dawnsio ond fi. Hoffwn i weld rhywun arall.

ANN: Ma' nhw'n dawnsio yn y trefi; ond dim yn y ffeire.

ANGHARAD: Fuoich chi'n dawnsio'n y ffeire, mam?

ANN: Mi ddawnsies i a chanu'r delyn yn y ffeire. A 'roedd dy dad wedi ngadel i a thithe heb dy eni.

(*Clywir ilais y pregethwr eto, yn fwy eglur a hwyliog.*)

ANN: 'Rwy' wedi dawnsio llawer a chanu'r delyn. 'Rwyt tithe'n dawnsio a chanu, a mi flini dithe.

ANGHARAD: 'Rwy'n blino weithe yn y ffeire, yn dawnsio a dawnsio drwy'r dydd, nes fod neb ar ôl yn towli'r arian. A wedyn 'rwy'n gorwedd a fleulu cysgu, dim ond dawnsio am orie a'r delyn yn canu o hyd. A 'rwy'n breuddwydio mod i'n dawnsio, ond 'dyw'r bobol yn y freuddwyd ddim yn towli'r arian.

. . . Ble cysgwn i heno, mam—yn y sgubor fawr?

ANN: Yn y sgubor fawr. 'Rwy' wedi blino. Ond chysga i ddim yn y sgubor fawr.

ANGHARAD: Pam na chysgwn ni fan hyn, mam?

ANN: Mae gwellt yn y sgubor, a 'rwy' wedi blino. Ond chysga i ddim.

ANGHARAD: Hoffwn i fyw mewn tŷ, mam.

ANN: Chei di byth fyw mewn tŷ.

ANGHARAD: Hoffwn i gysgu yn y capel hwn, â'r welydd mawr rhyngom ni a thuallan, a ninne ddim yn clywed y gwynt, na'r cwn yn cyfarth, a'r cwbl yn dywyll.

ANN: Chei di byth fyw mewn tŷ. Fe gês di dy eni'n yr eira, wrth ochor y Garreg Felen, yn Neuadd Sarne. A fe garion nhw ni nôl i'r ban, a'th dad wedi'n gadael ni.

ANGHARAD: Ble mae e heddi?

ANN: Mae e wedi mynd. . . . Mi ganes i'r delyn yn yr eira.

ANGHARAD: 'Dwy'n hoffi dim o'r eira. Mae mysedd i'n methu where'r tanne yn yr eira.

(Daw awel o wynt i agor y ffenestr sydd ar y dde, a chlywir geiriau'r pregethwr yn fwy eglur. Daw'r geiriau cyntaf a ddeallir yn union ar ol geiriau nesaf ANN. O hyn allan clywir llais y pregethwr yng nghymleth â'r ymgom, weithiau'n fwy tanbaid na'i gilydd, eithr clywir ei lais fel o bell, o'i gymharu â lleisiau'r rhai oddiallan. Gofaler ei fod yn torri i mewn yn naturiol. Rhaid i'r un a fo'n chwarae rhan y pregethwr ofalu bod dechreu pob brawddeg eglur yn toddi i mewn i ddiwedd brawddeg ANN neu ANGHARAD. A yn ei flaen yn aneglur a hwythau'n siarad. Bydd y rhan yma yn anodd i'w chwarae, eithr y mae'n anhepcor i lwyddiant y ddrama. Bydd cyfodi a disgyn yn y llais—yn danbaid weithiau, ac

weithiau'n aneglur, fel pe bai'r pregethwr ar droeon yn troi i gyfeiriad arall o'r pulpud. Gwelir yn nês ymlaen y bydd dylanwad yr awel ar y ffenestr yn peri i'r llais ddistewi. Cwyd i fwy o hwyl wrth fyned ymlaen, a thua'r diwedd y mae'n "canu" pob brawddeg yn bersain. I hyrwyddo'r darllen, gosodir geiriau eglur y pregethwr mewn dyfynodau.)

ANN: Fe ganes i'r delyn a thithe'n blentyn sugno. Gwaith caled oedd canu'r delyn.

“ Yr hwn sydd ddibechod o honoch taffed yn gyntaf garreg ati”

ANGHARAD: Welodd 'y nhad fi, mam?

ANN: Welodd e ddim ohonot ti. Welodd e fi'n dawnsio â sgidie melyn am 'y nhraed, a'r bobol yn taro'u dwylo i gyd.

“ Ychydig bach o dynerwch mewn byd o boen. . . .”

ANN: A mi ddawnsies i iddo fe'n unig. Ond fe ngadawodd e i. A mi ddawnsies i yn y ffeire a thithe i gael dy eni, a mi ddwedodd y bobol, "Dyco'r buten yn dawnsio."

“ A Moses yn y gyfraith a orchymyn-
odd i ni labyddio'r cyfryw, a dyna ni'n cael.”

ANGHARAD: Pryd y dysgoch chi ddawnsio,
mam?

ANN: Ddawnsies i o flaen y brenin, a channoedd
yn dwad i ngweld i. Mi ddaeth e i ngweld i.

“ Paham mae'n rhaid i ni.”

ANGHARAD: Shwt un oedd e, mam?

ANN: Mi chwilies i'n y ffeire, ond 'roedd e wedi
mynd—.

“ Ymddyrrha, Farnwr y byd, tâl eu
gwobr i'r beilchion.”

ANN: Mi ddysgais i ti ddawnsio yn y ffeire.

ANGHARAD: 'Rwy'n dawnsio oddiar 'rwy'n
cofio. Dawnsio'n y ffeire a chanu'r delyn. 'Rwy'
wedi blino ar y ffeire.

(Yn fwy hwyliog.) “ I Gymru,
gwlad y cymanfaoedd a'r breintiau mawr.”

ANN: 'Rwy' wedi blino ers blynnydde lawer.
Blino ar y ffeire.

“ Nid oedd Ef ymhlith y rhai parch-
us.”

ANGHARAD: Falle daw e'n ôl ato ni eto, mam.

ANN: 'Rwy' wedi mynd yn hen. Ddawnsia i
ddim mwy.

“ heno yn disgwyl am y rhai sydd
gynefin â dolur. Y dwfr bywiol.”

ANGHARAD: Pe bai e'n dwad 'nol, nabydde fe
ddim ohono i.

ANN: 'Dwy ddim am i weld e.

ANGHARAD: Falle i fod e wedi marw, mam.

ANN: Mae e'n cerdded y ffeire. 'Dyw e ddim
wedi marw. Cadw draw mae e. Mae'n
bryd i ti gael bwyd. Mae e'n cerdded y
ffeire o hyd.

(Yn hwyliog.)

“ ‘Dan aden Dy gariad mi ganaf
Ynghanol tymhestloedd y byd.’”

ANGHARAD: Mae rhywun yn siarad yn uchel o
hyd yn y capel.

ANN: Weli di byth mohono fe. 'Rwy'n hen, a
mae e'n cadw draw. Mae e'n cerdded y ffeire.

ANGHARAD: Odi e'n dawnsio, mam?

ANN: 'Does neb ond ti yn dawnsio'n y ffeire.

" hiraeth enaid blinedig am
Dduw."

ANGHARAD: Welsoch chi Grist yn dawnsio,
mam?

ANN: Dyw E ddim yn dawnsio. Dy sort di a fi
sy'n dawnsio.

" Yn w'r glwth ac yfwr gwin, cyfaill
publicanod a phechaduriaid."

ANGHARAD: Welsoch chi E, mam? Welsoch
chi E?

ANN: 'Dwy ddim am i weld e mwy. Mi chwilies
i'r ffeire yn hir, yn canu'r delyn ac yn ffeulu dawnsio.
. . . Mae'n dawel fan hyn, ond mae'n bryd i ti
gael bwyd.

" Ei enw Ef ar wefusau Magdalen.
."

ANN: Dawnsio'n y ffeire. Dawnsio a chanu. A
mae ynte'n cerdded y ffeire. Ond 'dyw e ddim yn
blino.

ANGHARAD: Sut un oedd e, mam?

ANN: Tal, golygus, pan weles i e gynta. A mae
e fel hynny o hyd. Dim ond fi sydd yn hen.

" Ei glywed yn galw: 'Deuwch ataf
Fi bawb a'r ysydd yn flinderog ac yn llwythog."

ANGHARAD: Mi wêl e fi rywbyrd a finne'n
dawnsio yn y ffeire. A fydd e ddim yn 'y nabod i.

ANN: 'Roedd i lais e'n eglur. 'Roeddwn i'n
nabod 'i lais e.

" Mae E'n gweled heno galonnau
drylliedig y byd. Nid y beilchion, nid y cyfoethog-
ion, ond y rhai sydd wedi blino ar dristwch y daith,
ac heb le i roi pen i lawr. Y rhai sydd mewn newyn
neu syched neu boen. Y rhai sydd wedi syrthio wrth
ochr y ffordd. Y mae miloedd yn crwydro heno, yn
sychedu am y dwfr bywiol. Nid ydynt mewn capel
nac eglwys; nid ydynt ymhlith y rhai parchus. A'r
Hwn na chafodd barch gan ddynion yn disgwyl am
danynt: 'Deuwch ataf Fi bawb a'r ysydd yn flinderog
ac yn llwythog a mi a esmwythâf arnoch.' O, bech-
adur, os yw dy bechodau . . . (Yn aneglur am ych-
ydig, yna'n eglur a hwyliog.) . . . Yr Oen a laddwyd
sydd eto'n fyw!"

ANN: 'Rwy'n clywed i lais e pan fydda i'n effro'r nos. A 'rwy'n clywed i lais e pan fyddi di'n canu. . . . Nid y fi ddysgodd i ti ganu.

(*Yn fwy eglur eto.*)

" Yr Oen a laddwyd sydd eto'n fyw. . . . "

ANN: 'Rwy'n clywed i lais e yn fy henaint. Ddawnsies i yn y ffeire er i fwyn e.

(*Gesydd ei hwyneb i orffwys ar ei llaw, a chau ei llygaid. Y mae'r awel yn chwythu'r ffenestr ymron yng nghau, ac y mae'r bregeth yn myned yn aneglur. Daw DAFYDD i mewn o'r chwith. Ni chymer yr hen wraig sylw ohono am beth amser. Cerdd ef yn araf, ac edrych tuag at y capel ac yna ar ANN ac ANGHARAD, heb fod yn sicr a erys neu beidio.*)

DAFYDD (*wrth ANGHARAD*): A fedrwch chi weyd wrthw i a o'dyn nhw wedi dwad allan o'r capel?

ANGHARAD: Na, 'does neb wedi dwad allan o'r capel.

DAFYDD (*heb wybod yn iawn beth i'w ddweyd*): O, 'rown i'n disgwyl rhywun allan.

ANGHARAD: Fydda i'n dawnsio pan ddon' nhw allan.

X DAFYDD: Dawnsio?

ANGHARAD: Ie, dawnsio a chanu'r delyn.

DAFYDD: Dyna'ch gwaith chi?

ANGHARAD: Ie.

DAFYDD: O, leicwn i'ch gweld chi. Ond falle'ch bod chi wedi blino. (*Yn eistedd.*) 'Rwy' wedi blino braidd yn hunan.

ANGHARAD: 'Rwy'n blino weithe yn y ffeire. 'Dwy ddim wedi blino llawer heno. Mae mam wedi blino.

DAFYDD: Odych chi'n dawnsio yn y ffeire?

ANGHARAD: Odw. Dawnsio a chanu'r delyn. Mi fydda i'n dawnsio 'fory yn y ffair.

DAFYDD: Leicwn i'n fawr ych gweld chi. 'Rwy'n leico'r delyn, a 'rwy'n leico gweld dawnsio.

ANN (*hanner wrthi ei hun*): Dawnsio a chanu nes dy fod di'n hen. Dawnsio am ddime'n y ffair.

DAFYDD (*yn camsynied y bwriad*): O—mae'n ddrwg gen i. Ond 'dos gen i ddim arian i gâl.

ANGHARAD: Mi gana i'r delyn i chi.

(*Yn chwarae ac yn canu eto am ysbaid.*)

ANGHARAD: Fedra i ddim dawnsio 'nawr. 'Dall mam ddim chwarae'r delyn. Mae hi wedi blino.

DAFYDD: Odych chi'n hoffi where'r delyn?

ANGHARAD: Dim yn y ffeire. 'Rwy'n blino yn y ffeire. 'Rwy'n hoffi dawnsio pan fydd neb yn edrych, a neb yn towli arian.

DAFYDD: Odych mam yn canu'r delyn?

ANGHARAD: Odi, mae'n canu'r delyn, a hi nysgodd i ddawnsio.

ANN: Fi ddysgodd i ti ddawnsio'n y ffeire. Dawnsio a chanu'r delyn yn y ffeire.

DAFYDD: Oedd hi'n arfer dawnsio?

ANGHARAD: 'Roedd hi'n dawnsio mewn sgidie melyn yn y dre, a'r bobol yn taro'u dwylo i gyd.

(Clywir llais y pregethwr yn ystod yr ymgom uchod, eithr yn aneglur. Edrych DAFYDD yn awr ac yn y man i gyfeiriad y ffenestr.)

DAFYDD: Pwy sy'n pregethu'n y capel hyn heno?

ANGHARAD: 'Roedden nhw'n canu yn y capel gynne. Mi fuon nhw'n canu a finne'n dawnsio.

DAFYDD: Odych chi'n gwbod pwy sy'n pregethu?

(Daw llais y pregethwr yn fwy eglur.)

ANGHARAD: Mae rhywun yn siarad yn uchel yn

y capel. *(Yn ddisymwth.)* Odych chi mewn poen neu wedi blino, neu mewn syched?

DAFYDD: Nagw. Pam ych chi'n gofyn?

" Y Gŵr gofidus a chynhefn â dolur."

ANN: 'Rwy'n clywed i lais e heno. *(Yn troi at DAFYDD.)* Pam ych chi yma? Beth ych chi am gael? Rhai yn dawnsio'n y ffeire i ni.

" ym mherffeithrwydd yr enaid. Daw tawelwch wedi'r stormydd."

ANGHARAD: Mae e'n siarad eto. *(Wrth DAFYDD.)* Fuoeh chi mewn capel erioed?

DAFYDD: Do, droeon.

ANGHARAD: Fues i ddim erioed yn y capel.

" afon bur o ddwfr y bywyd yn dyfod allan o orseddfaingc Duw a'r Oen."

ANN: Ma'i lais e yn y capel. 'Rwy'n i glywed e!

ANGHARAD: Pwy yw e, mam? Pwy yw e?

" a drws trugaredd a agorir i'r hwn sydd yn curo."

ANN: Mae llais dy dad yn y capel. Pam ma'i lais e'n y capel? *(Yn codi ac yn troi i gyfeiriad y capel.)*

“ mae aberth Pen Calfaria er mwyn dy enaid di. ”

ANN (*yn cerdded yn gynhyrfus tua'r ffenestr ac yn llefain.*) Malachi! Malachi!

ANGHARAD: Mam! Mam!! Be sy'n bod?

“ anfeidrol dynerwch y Duwdod yn cofio am danoch chwi. ”

ANN (*yn estyn ei breichiau i ymrafael yn y ffenestr ac yn ymdrechu edrych i mewn*): Malachi! Agorwch—!

(*Yn eglur a phersain.*)

“ Yr Oen a laddwyd sydd eto'n fyw. ”

ANN: Malachi! Y plentyn! Dy blentyn di. Malachi—!

“ mae drws trugaredd yn agor i'r hwn sydd yn curo. ”

(*Gwelir llaw o'r tu fewn yn cau'r ffenestr. Y mae ANN yn troi'n ôl yn siomedig ac yn cerdded yn ôl yn araf.*)

ANN: Ma' nhw wedi cau'r ffenest yn fy erbyn i.

(*Pwysa ei breichiau ar y delyn am beth amser gan edrych i lawr. Clywir y bregeth yn tawelu ac yna'n distewi'n llwyr. Y mae distawrwydd perffaith am ychydig.*)

ANN (*yn llesg ac yn dawel, ond heb gryndod yn ei llais*): 'Rwy' wedi blino. 'Rwy' am fynd adre. Ma'n rhaid i ti ddwad â'r delyn adre. Chana' i ddim ohoni ragor. Mi fydd yn rhaid i ti ddawnsio dy hunan yn y ffeire mwy.

(*Cerdd yn dawel i'r chwith ac o'r golwg. Daw ANGHARAD â'r delyn o'i hól. Edrych DAFYDD yn syn i'w cyfeiriad hwy, a'r LLEN yn disgyn yn araf.*)

ACT IV.

CEGIN CEFN EITHIN, HWYR Y SABOTH, YCHYDIG WEDI'R
DIGWYDDIADAU YN Y DRYDEDD ACT.)

*Y mae WILIAM o flaen y tân yn darllen. Daw
CATRIN i mewn yn ei dillad goreu. Diosg ei het, cot, a
menyg wrth siarad.*

CATRIN: Fuest ti ddim yn y capel heno 'to?

WILIAM: Naddo fi.

CATRIN: Wel, mi fydd nhad yn anfolon. A mi
gest golled. Fe geison ni bregeth ardderchog.

WILIAM: Do fe?

CATRIN: O, 'rodd e'n dda!

WILIAM: Beth wedodd e?

CATRIN: O, alla i ddim gweyd wrthot ti onibai dy
fod ti 'co. 'Rodd e'n golled i ti, Wiliam, odd wir.
'Rodd e'n ddigon i hela—O, 'rodd gydag e bethe da!

WILIAM: O wel, 'rwy fawr am bregethu, ochwed-
yn. Alla i ddim help.

CATRIN: 'Rwyt ti'n ddwl, Wiliam.

WILIAM: Wn 'im; felle mod i.

CATRIN: 'Rwy'n leico pregeth dda.

WILIAM: Wyt. 'Rwy'n gwbod dy fod ti. Ond
'dyw pawb ddim 'run fath a thi, weldi.

CATRIN: Mi fyset ti wedi leico'r bregeth 'na heno
'se ti yco. Ond roi di ddim cynnyg iddi os gelli di
help.

WILIAM: Ble ma' nhad?

CATRIN: Ma' nhw 'nôl fanna—yn ymyl.

WILIAM: Gwell i fi symud 'te. Af i mäs i'r stabal
at Josi.

CATRIN: Ie, gwell i ti fynd, lle bod hen row 'to.
Ond paid ag aros yn hir. Mi fydd swper yn barod
cyn bo hir iawn.

WILIAM: O'r gore. (*A allan drwy'r drws ar y
dde.*)

(*Diosg CATRIN ei het, etc., a dwg hwynt i mewn i'r
ystafell arall drwy'r drws ar y chwith. Daw yn ôl
ymron ar unwaith, ac fe'i prysura ei hun oddeutu'r*

ystafell. Clywir siarad tuallan. Agorir y drws a daw DANIEL EVANS, GRUFFYDD WILLIAMS, MALACHI, TOMOS SIMON a LEWIS EDWARDS i mewn. Dyn tal, cryf, tua deugain oed, yw SIMON. Dyn teneu, nerfus, a rhyw gyffyrddiad o'r ffanatic yn perthyn iddo yw LEWIS EDWARDS, yn llefaru pob brawddeg yn ddiſrifol ac fel pe bai llawer yn dibynnu arni.)

DANIEL: Dewch ymlân. Mae'r tân wedi mynd lawr.

GRUFFYDD: 'Dos dim eise tân heno, mae'n ddigon ffein i unpeth.

(Deuant ymlaen o gylch y tân heb ddywedyd llawer, ag eithrio rhyw sylw neu ddau o siarad cyffredin.)

DANIEL: Dewch chi mlân fan yma, Mr. Jones. *(Gan bwyntio at y gadair sydd gyferbyn â chanol y llwyfan.)*

MALACHI: Ble'r ych chi'n eistedd, Mr. Evans?

DANIEL: 'Rw' i'n iawn fan yma, diolch.

(Nid yw'r siarad yn dyfod yn rhwydd. Y mae ôl ymdrech ar y brawddegau cyntaf.)

GRUFFYDD: Wir, mae hi wedi mynd yn wresog yn sydyn, ar ôl y glaw 'na neithwr.

MALACHI: Odi, mae hi. 'Roedd hi'n wresog iawn yn y capel.

DANIEL: Odd, 'rodd hi. 'Rwy'n siwr i bod hi'n dwym i bregethu?

MALACHI: Oedd, 'roedd hi'n lled dwym, Mr. Evans.

LEWIS EDWARDS *(yn sydyn)*: Gadewch i fi weyd wrthoch chi, syr, ein bod ni wedi câl odfa gofiwn ni dro yn yr ardal yma.

(Edrych MALACHI arno gyda diddordeb.)

GRUFFYDD: Do'n wir; do'n wir! Odfa ryfedd, Mr. Jones.

MALACHI: Odych chi'n meddwl hynny?

LEWIS EDWARDS: Odw. Mi deimles i, fel un, effaith y bregeth, a gadewch i fi weyd wrthoch chi y bydda i'n well dyn 'fory ar ôl i chlywed hi, 'rwy'n gobeitho.

MALACHI: Odych chi'n teimlo hynny, Mr. Edwards?

LEWIS EDWARDS: Odw. Dyna fi'n dweyd 'y marn. Y marn i yw e—ond, dyna fe.

MALACHI : O'ch *chi'n* teimlo, Mr. Evans, mod i—
y—wedi pregethu'n deilwng?

DANIEL : Own i, wir, Mr. Jones. 'Rodd yna naws
rhyfedd yn y capel yna heno. 'Down i ddim wedi
bwriadu dweyd rhyw lawer onibai i Edwards godi'r
peth—ond—wel, 'rwy'n meddwl bod y gynulleidfa
wedi teimlo hefyd.

CATRIN (*gydag yswildod merch yn torri ar sgwrs
tyrfa o wrywod*): Wel mi enjoyes i'r bregeth, ta
beth.

MALACHI : Da iawn, merch i ; da iawn, am roi
gair o gefnogaeth i hen ŵr. Mae e'n galondid mawr.

GRUFFYDD : O odi. Odi. A mae Catrin yn
yn eitha beirniad ar bregeth. He, he!

CATRIN : O, nagw i, ddim beirniad. Dim ond
dweyd 'y marn i'n hunan. Ond mi fwynheais i'r
bregeth. Alla i weyd hynny.

MALACHI : Dyna i gyd sydd eise, merch i. 'Roedd-
wn i am gael gwybod, oblegid mae blynyddau mawr
oddiar i mi bregethu mewn capel Cymraeg o'r blaen,
a 'rown i—wel, braidd yn ofnus na chawn i ddim o'r
—y—yr effaith hoffwn i gael—. Na fedrwn i ddim
creu yr awyrgylch iawn.

DANIEL : 'Dwy ddim yn meddwl fod eisie i chi
ofni ar y pen yna.

MALACHI : A 'rych *chi'n* meddwl i fod e'n bre-
sennol yna heno, gyfeillion?

LEWIS EDWARDS : 'Rodd ysbryd y peth byw
yna heno, syr. 'Rown i'n i deimlo fe.

MALACHI (*yn awyddus*): Ie?

LEWIS EDWARDS : Dyna nheimlad i, beth
bynnag.

DANIEL : O ôdd ; odfa dda iawn yn 'y marn i.

MALACHI (*yn araf*): Odych *chi'n* meddwl fod hi'n
bosib fod rhyw—y—rhywun wedi teimlo rhyw
gymaint—?

DANIEL (*yn dawel*): Synnwn i, wir. Be' wyddon
ni—.

LEWIS EDWARDS (*yn benderfynol*): Odd.
'Rwy'n gwbod i fod e. Tomos Simon, dwedwch ych
barn.

TOMOS SIMON : Fe geiso' ni bregeth dda.

MALACHI : Wel, mi fyddai'n dda iawn gen i
wybod fod 'y mhregeth gynta' i tu yma i'r dwr wedi
cael rhyw effaith—wedi bod o gysur i rywun, pe bai
ond crwydryn tlawd.

GRUFFYDD: 'Rwy'n meddwl weithe, Mr. Jones. Cwrdd â phregethwyr yn amal fel hyn. Cadw mis, ac yn y blaen. Mae e'n siwr o fod yn waith blinedig, Mr. Jones?

MALACHI (*yn frwd*): Dim i fi, Mr. Williams; dim i fi. 'Dwy i ddim yn meddwl y blinwn i byth!

LEWIS EDWARDS: Odych chi'n bwriadu pregethu llawer eto, Mr. Jones?

(*Edrych MALACHI arno'n ddistaw am ennyd.*)

MALACHI (*yn ddwys*): Na. . . . Na. Mae'n amheus iawn a gaiff un ohonoch chi glywed yr hen Falachi Jones yn pregethu mwy. 'Rwy'n mynd ymlaen ar fy oedran. 'Roeddwn i am gael pregethu mewn capel yng Nghymru, capel yn y wlad fel hwn, a mi gefais fy nymuniad. Y seddau'n llawn o'r saint, yn canu'r hen emynau Cymraeg, ac yn gwrando arna i'n barchus, ac yn ddistaw. . . . Na, fydd dim llawer o hwyl i bregethu mwy.

(*Y mae distawrwydd llethol am ychydig amser.*)

DANIEL (*yn drwsgl*): Ie, wel—felna ma' pethe. . . 'Ryn ni gyd yn mynd yn hen. . . . Fyddwch chi ddim yn mynd 'nôl eto?

MALACHI: Na, 'dwy ddim yn meddwl hynny, Mr. Evans. Fydda i debig o gartrefi yng Nghymru o hyn allan.

GRUFFYDD (*yn cael ei leferydd yn ôl*): Os perthnase gyda chi yng Nghymru, Mr. Jones?

MALACHI: Un neu ddau o berthnase pell, Mr. Williams. Dim ond un neu ddau. 'Does dim llawer ar ôl oedd yn adnabod yr hen Falachi Jones cyn iddo fyned i America.

" Mae nghyfeillion wedi myned
O fy mlaen o un i un."

TOMOS SIMON: Fuoeh chi allan yn America'n hir, Mr. Jones?

MALACHI: Do, flynyddau mawr; blynyddau mawr.

TOMOS SIMON: Faint?

MALACHI: Faint yw'ch oedran chwi, Mr. Simon?

TOMOS SIMON: 'Rwy wedi gadael fy neugen.

MALACHI: O? 'Rych chi'n hŷn nag own i'n feddwl. Wel, 'roeddech chwi'n gymharol ifanc pan ês i allan. Oes, mae blynyddau mawr oddiar i mi weled America am y tro cyntaf.

TOMOS SIMON : Pryd glanioch chi yn y wlad 'ma, Mr. Jones?

MALACHI : Ychydig wythnosau 'nôl, Mr. Simon. Mordaith bleserus iawn ar y cyfan ; pleserus iawn. 'Dyw teithio ddim yn beth rhwydd i un o'm hoedran i.

TOMOS SIMON : Beth oedd enw'r llong, Mr. Jones?

DANIEL : Bachgen, Simon, 'rych chi'n holi'n fanwl iawn!

TOMOS SIMON : 'Rwy'n teimlo tipyn o ddiddordeb yn hanes Mr. Jones.

MALACHI : Felly. Felly. Wel, mi ddweda i wrthoch chi—.

(*Clywir curo pendant ar y drws. Erys yr ymgom a chyfyd CATRIN i ateb. Clywir siarad wrth y drws. Daw yn ei hôl.*)

CATRIN : Mae'r dyn fuodd yma neithwr a'r ferch wrth y drws, yn dweyd fod eise help yn y sgubor—yr hen wraig.

DANIEL : Be' sy'n bod?

CATRIN : Mae hi'n wael iawn. . . . 'Rwy'n credu bod hi'n marw.

DANIEL : Dwêd wrthyn' nhw am ddwad miwn. (*Yn uchel.*) Dewch miwn!

(*Daw DAFYDD i mewn, ac ANGHARAD, a golwg drist iawn arni, o'r tu ôl.*)

DAFYDD : Allwn i gâl help, os gwelwch chi'n dda? Mae eisie rhywun allan yn y sgubor.

(*Ni ddywed ANGHARAD ddim, a saif yn welw o'r tu ôl.*)

DANIEL : Catrin, cer di mâs. Mi ddo i ar dy ôl di ond câl y lantarn.

(*Dyd ei esgidiau am ei draed ac â i ymfyn y llusern. A ANGHARAD, DAFYDD a CATRIN allan, ac yna DANIEL.*)

MALACHI : Yr hen wraig ddaeth yma neithwr, ife?

GRUFFYDD : Ie, rhyw hen wraig a thelyn yw hi, yn crwydro ar hyd y wlad. Fuodd hi'n cysgu yn y sgubor neithwr. Mae llawer ohonyn' nhw dwad yma.

TOMOS SIMON : Dwad adre o Ffair Llanelwy, gw'lei?

GRUFFYDD : Ie, gw'lei. Dwad yma neithwr nâth hi.

MALACHI: A mae'r ferch ifanc yna'n dawnsio, odi hi?

GRUFFYDD: Odi, 'rwy'n meddwl. Ambell waith iawn 'rw' i'n mynd i'r ffeire 'ma. 'Rych chi, Tomos, yn gwbod yn well na fi.

TOMOS SIMON: Ie, dawnsio mae hi. Mi wn i am danyn' nhw.

MALACHI: Oes rhyw fodd i gael cymorth i'r hen wraig—rhyw feddyg neu rywun yn ymyl?

LEWIS EDWARDS: 'Does dim un o fewn dwy filltir.

TOMOS SIMON: A 'dyw hwnnw ddim gartre heno. Yn y wyrkos y dyle pobol fel hyn fod, a nid mewn lle fel hwn.

MALACHI: Ie. Hwyrach taw e. Ac eto, trueni na fuasai rhywun wrth law—. Odi hi'n hen iawn?

GRUFFYDD: Go hen—eh, Tomos?

TOMOS SIMON: 'Dwn i ddim yn iawn. Mae amser oddiar pan weles i hi. . . . Mr. Jones, 'roch chi ar hanner ateb cwestiwn i fi pan ddaeth y bobol yna mewn.

GRUFFYDD: Tyn i chi, Tomos â'ch cwestiwyne.

MALACHI: O, ie, sefwch chi—y llong, ynte?

TOMOS SIMON: Ie.

MALACHI: Yr s.s. *California* oedd y llong. Yn Lerpwl y glaniodd hi, Mr. Simon.

TOMOS SIMON: Fyse wahanieth gyda chi ddweyd yn gwmws pryd glaniodd hi?

(*Daw DANIEL i mewn.*)

MALACHI: Dim o gwbl; dim o gwbl. Dim ond 'y mod i ddim yn deall paham yn hollol—.

DANIEL: Mae'r hen wraig mewn cyflwr drwg iawn.

MALACHI: Felly wir, Mr. Evans; felly wir. Beth sydd yn bod?

DANIEL: 'Dwn i ddim yn iawn. Allwn i feddwl i bod hi wedi llethu gan y glaw neithwr a'r cerdded.

. . . 'Dwn i ddim beth allwn i neyd. Mae Wiliam gyda Catrin allan yn y sgubor.

MALACHI: Allwn i gynorthwyo mewn unrhyw ffordd, Mr. Evans? Fyswn i'n barod iawn i neyd.

GRUFFYDD: Mi âf i yn y funud os oes eise. 'Does dim eise i Mr. Jones —.

DANIEL: Na, 'dwy ddim yn meddwl fod dim allwn i neyd ar hyn o bryd. Mi âf i allan eto ymhen ychydig

bach. . . . Ond ma' peth fel hyn yn anffortunus iawn i ni. Mi fyse'n dda gen i 'se nhw ddim wedi dwad yma.

GRUFFYDD: 'Rych chi'n ffol iawn, Daniel, i roi lle i rhyw bobol fel hyn. Mae e'n hen beth c as iawn i chi g al rhyw ddigwyddiad fel hyn yn agos i'r t y.

DANIEL: Wel, 'does gyda ni ddim i'w wneyd nawr. Mae Catrin a Wiliam yn gneyd i gore. (*Yn eistedd.*)

MALACHI: Sefwch chi, Mr. Simon, 'roeddech chi am gael gwybod pryd y glanies i?

TOMOS SIMON: Own.

MALACHI: 'Rwy' wedi bod yn ystyried. Y—tair wythnos i echdoe y glanies i yn Lerpwl, Mr. Simon.

TOMOS SIMON: 'Rych chi'n hollol siwr o hynny?

MALACHI: Yn berffaith siwr. Mr. Simon. Beth sydd am hynny?

TOMOS SIMON: Dim ond 'y mod i wedi'ch gweld chi'n gwerthu *watches* yn Ffair Rhydybrodie bythefnos yn  l.

(*Y mae distawrwydd am  nnyd bach.*)

LEWIS EDWARDS: Simon! Beth ych chi'n weyd, fachgen?

MALACHI: Beth? Beth? Beth? Dwedwch hynna eto, Mr. Simon. Dwedwch e'n groew!

TOMOS SIMON: Mod i wedi'ch gweld chi'n gwerthu *watches* yn Ffair Rhydybrodie, drigain milltir oddiyma, bythefnos i ddoe.

MALACHI: Ha, ha, ha! Wel, yn ystod fy ngyrfa bregethwrol, Mr. Simon, 'rwy' wedi cyfarfod   llawer tro rhyfedd. Ambell i dro doniol, Mr. Simon. Ambell i dro doniol iawn. Ond ch s i erioed o'r blaen fy nghyhuddo o werthu *watches* mewn ffair. *Dear me!* Pwy *welsoch* chi yn Ffair Rhyd-y—Rhyd-y—be galwoch chi e, Mr. Simon?

TOMOS SIMON: Chi.

DANIEL (*yn ffyrnig*): Simon! Beth ich chi'n weyd? Rhaid i chi fod yn ofalus cyn dweyd peth fel hyn.

GRUFFYDD: D—d—diar i! E! Beth? Beth?

LEWIS EDWARDS: Mae'r dyn wedi colli 'i synnwyr. Ar  l y bregeth glywso' ni heno!

TOMOS SIMON: Nag w', Lewis Edwards, ddim. A 'rwy' wedi bod yn ofalus, Evans. 'Rwy'n gwbod

beth wy'n siarad am dano. O ble daeth y dyn hyn yma neithwr? Os un ohonoch chi'n gwbod?

DANIEL: Fe ddaeth Mr. Jones â llythyr oddiwrth Mr. David Jones, Crug Gwyn.

TOMOS SIMON: Odych chi'n siwr mai llaw-ysgrifen Mr. Jones ôdd ar y llythyr?

DANIEL: Odw. 'Rodd gen i lythyr arall oddiwrth Mr. Jones ar llofft, a mi fues i'n cymharu'r llaw-sgrifen.

(Ennyd fer iawn o ddistawrwydd.)

MALACHI: A bwriwch, Mr. Evans, eich bod chi heb wneuthur hynny! Odi pregethu'n waith mor hawdd fel y gall unrhyw scerbwd sy'n gwerthu *watches* ar ochor yr hewl bigo'r grefft i fyny?

(Yn plygu ymlaen.) Mr. Edwards, 'rych chi'n feirniad ar bregeth. Fe glywsoch chi mhregeth i heno. Fe welsoch chi'r bobol yn gwrando, a 'dwy ddim yn meddwl mod i'n camsynied wrth ddweyd fod ambell i ddeigryn yn gloewi yma a thraw yn y gynull-eidfa. Fod ambell i hen sant yn eich capel chi wedi teimlo grym y genadwri—ie, a hwyrach ryw bechadur wedi droi i eifeirwch heno. Odi crefft John Elias o Fôn

a Daniel Rowlands at law pob scamp ddewisith ddwad i'ch tŷ chi?

LEWIS EDWARDS *(gyda theimlad)*: Nag yw, siwr, Mr. Jones. Dim ond hen bregethwr draddode honna heno.

DANIEL: Na. Mae hynna'n eitha' gwir.

MALACHI: Felly.

TOMOS SIMON: 'Dwy ddim yn meddwl mod i'n camsynied. *(Yn chwilio yn ei logell.)* Mr. Evans, fe welsoch chi fi'n mynd i'r tŷ am funud neu ddwy ar y ffordd adre heno?

DANIEL: Do.

TOMOS SIMON: Wel, chwilio hwn oedd 'y neges i. *(Yn dwyn allan o boced ei got ddarn o bapur newydd yn cynnwys darlun. Cymer DANIEL ef i'w law. Edrych arno, ac yna ar FALACHI yn syn ac yn ddi-frifol. Edrych y blaenoriaid eraill arno yr un modd.)*

MALACHI: Os hawl gen i gael golwg ar y darlun?

TOMOS SIMON: Oes. 'Rwy'n eitha' bolon.

(Cymer MALACHI ef i'w edrych a daw gwêdd ddi-frifol iawn ar ei wyneb, ysgwyd ei ben yn drist ac yn gywilyddus, a dyd ochenaid ddistaw.)

MALACHI: John 'y mrawd—druan ohono! Dafad ddu'r teulu bach, gyfeillion. Dwy ddim wedi weld e ers naw mlynedd ar hugain. . . . Feddyliais i ddim y ddi ei lun i'm rhwystro fel hyn yn fy hen ddyddiau.

(*Edrych TOMOS SIMON yn syn arno â rhyw gysgod amheuaeth.*)

LEWIS EDWARDS: Dyna! Dyna wers i chi, Simon, i fod yn ofalus!

(*Daw CATRIN i mewn.*)

CATRIN: Mr. Jones, mae'r hen wraig wedi gofyn am gael ych gweld chi allan yn y sgubor.

MALACHI: Fi?

CATRIN: Ie.

DANIEL: Gwell i chi fynd. Tebig i bod hi a chwant gweld y pregethwr.

(*Cyfyd MALACHI ac â allan. Eistedd CATRIN i lawr.*)

TOMOS SIMON: Gofyn am y pregethwr wnâth hi, neu am Mr. Malachi Jones—wrth i enw?

CATRIN: Fe ddwedodd hi i enw fe. Fe ddwedodd "Malachi" sawl gwaith. 'Rown i'n câl gwaith

i deall hi, ond mi ddwedodd y ferch i bod hi am weld y dyn ôdd yn y tŷ. A mi ofynnes inne: "Y pregethwr?" "Ie," mynte hi.

TOMOS SIMON: 'Rown i'n meddwl.

DANIEL: Simon! Ma'n rhaid i chi egluro'ch hunan. 'Rych chi wedi gneyd cyhuddiade difrifol yma heno!

CATRIN: Be' sy'n bod?

TOMOS SIMON: 'Rwy'n gwbod beth wy'n siarad am dano. 'Rwy'n bolisman profiadol a 'rwy'n 'nabod y rhan fwya o'r bobol 'ma sy'n dilyn y ffeire. 'Rwy'n gwbod am y ddwy yna sy' mâs yn y sgubor. A 'rwy'n 'nabod y dyn hyn. Mae e'n gymeriad hollol adnabyddus i'r polis.

DANIEL: Bachgen, Simon—!

GRUFFYDD: I frawd e welsoch chi, Tomos bach, i frawd e! 'Rwy'n nabod y dyn ych chi'n feddwl.

TOMOS SIMON: Shwt ôdd yr hen drampes 'na yn y sgubor yn i nabod e wrth i enw? Atebwch hynna i fi?

(*Ni ddywed neb air.*)

LEWIS EDWARDS: Chreda i byth un dyn ar y

ddaear yn dweyd mai tramp yw'r dyn draddododd y bregeth yna heno—dim byth!

CATRIN (*â'r datguddiad yn gwawrio'n llawn arni*): Tramp?

LEWIS EDWARDS: Ies, tramp. Mae Simon am weyd mai tramp yw e.

CATRIN: Howyr bach!

GRUFFYDD: Wel wir. Wel wir. 'Dwn i ddim beth i weyd, ochwedyn.

DANIEL: Ond pwy bwrpas, Simon? Pwy bwrpas all fod gydag e i ddwad fan hyn a phregethu?

TOMOS SIMON: Pan fyddwch chi, Daniel, wedi troi gymaint ymhlith y dynion hyn a fi, mi fydd yn haws siarad â chi. Odych chi wedi colli rywbeth o'r tŷ 'ma?

DANIEL: Na—na. 'Dyw'—'dyn ni ddim wedi gweld eisie dim.

TOMOS SIMON: Mi dalith i chi edrych.

LEWIS EDWARDS: Byddwch chi'n ofalus beth ych chi'n weyd, Simon. Mi edrychwch chi'n ffŵl os na fyddwch chi'n ofalus.

TOMOS SIMON: Mi ofala i am hynny. 'Dwy ddim wedi byw'n y pentre bach yma drwy'n oes.

GRUFFYDD: Ie, wel. Fe all fod, 'lwch chi. 'Rwy'n cofio stori am ddyn unwaith—.

DANIEL: Ond, Simon, wyddech chi fod—y—Mr. Jones wedi ngweld i'n rhoi ugen punt yn y drâr yna neithwr, a 'ro'n nhw yna bob dime bore heddi. A dyna'r llythyr wedyn. 'Rych chi'n siwr o fod yn camsynied—.

CATRIN: Fuodd *watch* aur Wiliam ym mhoced i wascod e fanna o flân y tân drw'r nos.

LEWIS EDWARDS: Simon, 'rych chi'n ynfydu. . . . A 'rych chi wedi sarnu effaith y bregeth ore glywes i ers blynnydde.

GRUFFYDD: I frawd e welsoch chi, Tomos bach.

TOMOS SIMON: Wel, os taw 'i frawd e ôdd e, rhaid mai dau efell o'en nhw.

LEWIS EDWARDS: 'Dyw hynna ddim digon da, Simon. Mi ddylech chi fod yn hollol sicir fe allwn ni cyhuddiad.

TOMOS SIMON: : 'Rwy' yn hollol sicir.

DANIEL: Wel, os ych chi'n hollol sicir—fe allwn ni ffeindio mâs yn ddigon rhwydd—beth ych chi am i ni neyd? Beth yw'ch cyhuddiad chi yn i erbyn e?

LEWIS EDWARDS: Beth yw'ch cyhuddiad chi, Simon? Beth yw'ch cyhuddiad chi?

TOMOS SIMON (*yn dechreu colli ei dymer*): 'Dych chi ddim yn meddwl i fod e'n ddigon o gyhuddiad i fod o wedi dwad 'ma a gneyd ffŵl ohono ni gyd— a chithe'n fwy na neb?

LEWIS EDWARDS (*yn frwd*): Pwy ffŵl? Mae'r dyn wedi pregethu a wedi gneyd i waith yn anrhydeddus.

TOMOS SIMON: Peidwch a siarad dwli'r dyn! 'Rych chi fel plentyn.

LEWIS EDWARDS (*mewn tymer wyllt*): 'Dwy ddim yn siarad dwli! Peidwch chi a dweyd dim o'r fath beth wrthw i! Chi sy'n siarad dwli. 'Dych chi ddim ffit i fod yn blisman!

TOMOS SIMON (*yn codi*): Dwedwch 'na eto! Dwedwch 'na eto, Lewis Edwards!

LEWIS EDWARDS: Gwnaf! Yn ych wyneb chi—.

DANIEL: Fechgyn, fechgyn. Sefwch, sefwch! 'Does dim eise i ni gollin penne. Ar nos Saboth fel hyn. Arhoswch! Trin y mater yn bwyllog sy eise—.

GRUFFYDD Ie siwr. Di'r caton pawb—!

TOMOS SIMON: Eitha' reit, Daniel Evans, ond 'dwy ddim yn mynd i gâl neb i weyd mod i ddim yn ffit i fod yn blisman.

LEWIS EDWARDS: 'Dych chi ddim yn gwbod y gwahaniaeth, Simon, rhwng pregethwr a thramp?

DANIEL: Lewis Edwards! Lewis Edwards! 'Rwy'n synnu atoch chi! Byddwch yn bwyllog. 'Does dim un rheswm mewn cweryla fel hyn. Mae'n ddigon hawdd i ni gâl allan ai gwir yw y peth.

TOMOS SIMON: 'Rych chi'n iawn, Evans. Fe ffeindiwn ni allan.

DANIEL: A odi e wedi gneyd rhywbeth allan o le heblaw pregethu? Wrth gwrs, wedi'r cwbul—.

GRUFFYDD: Beth am y darlun yna, Tomos? Oes arnyn' nhw i eise fe am rywbeth nawr?

TOMOS SIMON: Hen lun ôdd hwnna. Allwn i weitho dim ar y llun yna.

DANIEL: Wel, mae hynna'n clirio tipyn o'r awyr.

GRUFFYDD: Falle fod popeth yn iawn yn barod. Falle i fod e wedi mynd. Wela' i ddim argol am dano fe'n dwad 'nôl.

TOMOS SIMON: Wel synnwn i fawr. Dyna fi'n gweyd wrthoch chi.

DANIEL: Wrth gwrs, os yw e, dyna'r cwbul dros-odd. . . . Ma' Wiliam allan hefyd gyda'r hen wraig, ond yw e?

CATRIN: Odi.

LEWIS EDWARDS: Mi ddaw'r dyn yn ôl.

DANIEL: Wel, beth ych chi am i ni wneyd, Simon, pan ddaw e?

TOMOS SIMON: Wel, 'rwy' wedi'ch rhybuddio chi beth yw'r dyn.

DANIEL: Odyh, odyh; ond meddwl 'rown i ych bod chi'n fwy cyfarwydd na ni.

LEWIS EDWARDS: Pwy raid i chi gredu fod y dyn yn euog sy?

(Distawant wrth glywed sŵn traed oddiallan. Daw MALACHI i mewn wedi sobreiddio ac fel pe wedi hen-eiddo ychydig. Y mae braidd yn welw. Y mae ôl ymdrech i'w feddiannu ei hun ar ei frawddegau. Daw ymlaen yn araf. Eisteddant oll yn ddistaw ac anghysurus am beth amser.)

LEWIS EDWARDS: Os rhywbeth allan o'i le, Mr. Jones?

MALACHI: Na—. Mae'r hen wraig yn—ma' hi'n wael iawn. (*Wrth CATRIN.*) Gwell i chi fynd allan.

(Cyfyd CATRIN ar unwaith a myned allan.)

DANIEL (*yn garedig*): Dych chi ddim yn teimlo'n dda, Mr. Jones?

MALACHI: Na, 'rwy'n eitha' iawn, Mr. Evans. 'Dwy ddim—mae golygfa fel yna wedi y—effeithio ychydig bach arna i falle. 'Does dim allan o le. 'Does dim eise i chi bryderu.

(Y mae ennyd arall o ddistawrwydd.)

DANIEL: 'Ryn ni wedi bod yn siarad, Mr. Jones, tra buoch chi allan. Wrth gwrs—'dyn ni ddim am—'ryn ni am fod yn deg. Mae Mr. Simon—(*edrych MALACHI i fyny*)—wedi—y—dwyn cyhuddiad. 'Dyn ni ddim am ddweyd i fod e'n iawn. Ac eto, 'ryn ni'n teimlo na fyse Mr. Simon ddim wedi dweyd onibai fod ganddo sail, neu o leia—.

LEWIS EDWARDS: 'Dw' i'n credu dim ohono fe. 'Rwy' am weyd hynna.

MALACHI (*braidd yn chwerw*): Un yn ffyddiog, gyfeillion. Megis gronyn o hâd mwstard, e? Odi hi wedi dwad i hynny? (*Edrychant dipyn yn anghys-*

urus.) Wel, feddylies i erioed y byse cyhuddiad mor ffôl yn cael gwrandawriad.

TOMOS SIMON: Wel, gwnewch fel mynnoch chi. 'Rwy'n glynu at yr hyn wedes i.

LEWIS EDWARDS: Odych, 'rych chi'n glynu, ond cheiff neb weyd mod i'n ych credu chi.

MALACHI: Diolch i chi, Mr. Edwards. Ma' i'n dda cael un cyfaill. Dim ond un. Ond falle talith hi'r ffordd i chi pan ddaw'r mater yma o flaen y cyhoedd.

GRUFFYDD: O flaen y cyhoedd? Odych chi'n bwriadu—?

MALACHI: Odw, Mr. Williams. 'Dwy ddim yn gyfarwydd â thriniaeth o'r fath yma. 'Roeddwn i'n meddwl y cawn i lety a chroeso—wedi dwad 'nôl i Gymru, ond (*yn druenus*)—rhaid fod pethe wedi newid.

DANIEL: Wel, 'dwy ddim wedi'ch cyhuddo chi mewn unrhyw ffordd, Mr. Jones. A 'rwy'n ffeulu'n lân a chredu fod Tomos Simon yn iawn. A mi fyse'n dda calon gen i wbod mai camsynied yw y cwbwll.

GRUFFYDD: Finne hefyd. 'Dwy ddim wedi gweyd gair yn ych erbyn chi, Mr. Jones. 'Rwy' wedi gwrandao ar Tomos Simon, a 'rwy' wedi gwrandao am och chi, a 'does gen i ddim i weyd. Wrth gwrs, 'rych chi'n ddyn diarth yn y lle 'ma, a 'ryn ni gyd yn 'nabod Tomos Simon, ond 'dyw hynny'n profi dim byd, wrth gwrs, ac os na all Tomos ddwyn 'i brofion—.

TOMOS SIMON: Wel—'dych chi ddim yn folon ar y profion 'rwy' wedi 'u dwyn yn barod?

LEWIS EDWARDS: 'Dych chi ddim wedi dwyn profion, Simon; dim ond cyhuddiade! Dim byd allwn ni afaelyd ynddo. 'Dyn ni ddim yn mynd i droi dyn fel yma allan o'r tŷ ar beth ych chi wedi weyd. Mae'r peth allan o reswm!

MALACHI: Wel, allwn inne feddwl hynny, ond ma' rhai ohonoch chi'n gweld fel arall.

TOMOS SIMON: Wedes i ddim yng nghylch i droi e allan o'r tŷ. Dweyd beth own i'n gredu wnês i—.

LEWIS EDWARDS (*yn wawdlyd*): Ie, credu—.

TOMOS SIMON: 'Rhowch gyfle i fi weyd! 'Rwy'

wedi dweyd wrthoch chi marn i. Rhyngoch chi a'ch gwaith bellach. Ond mi fydd yn ddigon hawdd profi'r peth 'fory.

MALACHI: 'Fory. A ble 'rwy' i'n câl fy rhoi yn y cyfamser? Oes llety i mi yma am y nos, Mr. Evans? Neu a oes rhaid rhoi hen bregethwr, gafodd beth parch mewn gwlad ddieithr, dair mil o filltir-oedd oddiyma, yn y carchar dros nos, rhag ofn iddo ddwyn ych eiddo chi?

DANIEL: Mae croeso i chi gysgu yma heno, Mr. Jones.

MALACHI: Diolch yn fawr iawn, Mr. Evans. Feddyliais i ddim y byse'n rhaid i fi fegian am lety heno.

LEWIS EDWARDS: Mae drws 'y nhŷ i yn agored i chi, Mr. Jones, pryd y mynnoch chi.

DANIEL: Fe gewch chi aros yma ta shwt bydd hi.

hyn wedi digwydd. Ond beth 'rw' i'n weyd yw hyn.

GRUFFYDD: Ie siwr, ie siwr! Trueni fod peth fel hyn wedi digwydd. Ond beth 'rw' i'n weyd yw hyn. 'Dwy ddim am weyd am funud fod Tomos Simon yn iawn. Wrth gwrs, 'ryn ni gyd yn gwbod fod Tomos

Simon yn ddyn gonest; 'ryn ni gyd yn gwbod hynny; ond fysech chi 'run peth ych hunan, Mr. Jones. Meddyliwch chi nawr 'swn i'n ddyn hollol ddiert h wedi dwad ych lle chi i bregethu. Wel, dyna fe. 'Dyn i ddim yn ych cyhuddo chi. Wedwn i ddim am funud fod Tomos Simon yn iawn—. 'Rwy'n sicir nag yw e'n hunan; ond wedyn—.

LEWIS EDWARDS: Odich chi'n barod i gynnyg lle i Mr. Jones heno?

GRUFFYDD: Wel—o—! Wel, wrth gwrs, Daniel Evans sy â'r mis, ond te fe? Ond wedyn, dyna fe, dyna fi wedi gweyd. Be' ta ni'n câl clywed ych rhesyme chi, Tomos Simon.

TOMOS SIMON: 'Rwy'n eitha' bolon dwyn y profion sy gen i ar hyn o bryd, a mi ddyga i ragor 'fory.

LEWIS EDWARDS: 'Dyw hi ddim yn deg i boeni fel hyn. Mae Mr. Jones wedi 'i ypseto tra fuodd e mäs gynne.

MALACHI: Do, 'rych chi'n iawn. Os ych chi am ryw beth Cristionogol i'w neyd—mae Ann—mae'r hen wraig yn marw wrth ych drws chi.

DANIEL: Ie, wel, rhaid i ni gofio hynny. (*Yn hanner codi.*) Mae Catrin allan. Os bydd eise—.

TOMOS SIMON: Fyse wahaniaeth gyda chi weyd, Mr. Jones, shwt y gwyddech chi mai Ann oedd i henw hi?

MALACHI: Dim o gwbwl. Mi ddwedodd wrthw i hunan pan oeddwn i allan gynne. Peth arall, fe ddywedoch chi'ch hunan mai Ann oedd i henw hi pan aeth Miss Evans allan gynta'.

TOMOS SIMON: Ond 'roech chi wedi gweld hi cyn heddi?

MALACHI: Weles i erioed mohoni cyn heno. Weles i erioed mohoni—.

(*Try'n ddisymwth a gwêl ANGHARAD, yn syn a gwelw, yn dyfod ato ar draws y gegin. Edrych MALACHI fel un yn gweled ysbryd y marw.*)

MALACHI: Y Duw Mawr! Ann—! Na—! Mi gredes—. (*Yn distewi mewn penbleth.*)

ANGHARAD: Mae mam wedi—.

(*Syrth wrth ei draed ac wylo'n ddilywodraeth. Edrych MALACHI arni'n syn. Ni ddywed neb air.*)

GRUFFYDD: Daniel, gwell i chi—. Be' sy ore i'w wneyd?

(*Y mae ennyd arall o ddistawrwydd. Edrych ANGHARAD i fyny i wyneb MALACHI.*)

ANGHARAD: Fe ddywedodd hi wrthw i am ddwad atoch chi.

LEWIS EDWARDS: Pwy yw'r ferch yma?

MALACHI (*yn gadarn*): Fy merch i yw hi.

LEWIS EDWARDS (*yn syfrdanllyd*): A chi—a chi—ych gwraig chi—?

MALACHI: Nage. Y mhlentyn i yw hi, serch hynny. Odych chi'n folon nawr, Tomos Simon? (*Ni etyb SIMON.*) 'Roddwch chi le i eistedd iddi?

(*Symudant i gyd i wneuthur lle iddi. Dyd MALACHI gadair iddi eistedd.*)

ANGHARAD: Chi yw 'y nhad i. Fe ddywedodd hi wrthw i. Mi alwodd hi arnoch chi tuallan i'r capel.

LEWIS EDWARDS: 'Rwy'n deall nawr; 'rwy'n deall nawr! Mi clywes i hi. Fi gaeodd y ffenest.

MALACHI: Galw?

LEWIS EDWARDS: Ie. O'ch chi ar hanner pregethu. Fe glywodd llawer hi.

TOMOS SIMON: Mi clywes i hi.

MALACHI: Wyddwn i ddim o hynny hyd nawr.

. . . Rhyfedd na fyswn i wedi i chlywed hi!

GRUFFYDD : 'Roeddech chi ar hanner y bregeth.

MALACHI (*yn synfyfyrrio*) : Rhyfedd na fyswn i wedi clywed i llais hi!

DANIEL : Pwy ych chi? A beth oedd ych bwriad chi'n dwad ffordd yma?

(*Agorir y drws a daw CATRIN a DAFYDD i mewn.*)

MALACHI : Fe ddywed e wrthoch chi beth oedd y mwriad i. . . . Dafydd, mae pethe wedi newid. . . . Tramp wyf i, Mr. Evans; tramp, na phregethodd erioed—na chafodd gyfle i bregethu mewn unman cyn heno . . . a cheiff e ddim cyfle i bregethu ar ol heno chwaith.

(*Cyfyd ANGHARAD yn bryderus o weled CATRIN a DAFYDD, fel pe am fyned yn ôl i'r sgubor. Daw CATRIN ymlaen ati.*)

CATRIN (*yn garedig*) : Peidwch chi a chyffro, fe wnawn ni bopeth.

ANGHARAD (*yn anobeithiol*) : Be' wna i eto? Be' wna i eto? Alla i ddim dawnsio mwy. O, Mam, Mam, Mam!

(*Edrych MALACHI arni.*)

TOMOS SIMON : Mi fydd yn rhaid i rywun ofalu am dani—.

MALACHI : Dim o'ch wyrkos chi i hon, Tomos Simon! Fe ofala i am dani—'y merch i yw hi!

TOMOS SIMON : Wel, o'r gore. Odych chi wedi gofalu am dani hyd yn hyn?

MALACHI : Weles i erioed mohoni cyn—neithwr. A wyddwn i ddim pwy oedd hi pryd hynny.

DANIEL : Neithwr! Fan yma?

MALACHI : Ie.

DANIEL : Wyddech chi ddim ma'i mam hi ôdd allan yn y sgubor gynne.

MALACHI : Na wyddwn.

LEWIS EDWARDS : Wel, wel! Pwy feddylie? Ar ôl y bregeth glywsom ni heno!

MALACHI : 'Rych chi wedi'ch siomi, Mr. Edwards?

LEWIS EDWARDS : Odw. Wedi'n siomi.

MALACHI : Odi'r bregeth rywbeth gwaeth, Mr. Edwards? Odych chi'n waeth ar ôl i chlywed hi?

LEWIS EDWARDS : Nagw. . . . Na. . . .

MALACHI : Odych chi'n barod i gynnyg llety i'r pregethwr, nawr?

LEWIS EDWARDS (*wedi ennyd o ddistawrwydd*):
Odw. . . . Fe gewch chi a'r ferch lety yn 'y nhê
i heno.

MALACHI: 'Does dim o'i angen e, Mr. Edwards.
Mi âf i 'nôl i'r prif-ffyrdd a'r caeau, a hithau gyda
mi. . . . Y mae ffeuwau gan y llwynogod, a chan
ehediaid y nefoedd nythod. . . . 'Rwy'n gyfar-
wydd â charreg oer yn obennydd.

DANIEL: Ond beth oedd eich bwriad chi? Beth
oedd eich bwriad chi? Eisieu'r arian oedd arnoch
chi?

MALACHI: Odych chi'n meddwl mai pregethu
ddewiswn i pe bawn i am neyd arian? Beth oedd 'y
mwriad i? Mr. Evans, mi'ch gwylies i chi o'r pulpud
heno, a 'roedd deigr yn ych llygad chi, dan effaith y
mhregeth i, pregeth y tramp, ych chi'n falch gael troi
o'r drws erbyn hyn, a 'rych chi'n gofyn nawr beth
oedd 'y mwriad i.

DANIEL: Wel, odych chi am weyd wrthw i—?

MALACHI: 'Rwy' wedi treulio bywyd mewn
wyrcoes, a charafans, a charchare—gyda'r putein-
ied a'r pechaduried, a'r bobol barchus yn cloi dryse
pan ddown i i'r dre—"Wil watches aur," "Lleidir

tai cyrdde." (*Dyry SIMON symudiad.*) 'Rych chi'n
cofio'n enw i nawr, Tomos Simon? Ond heno—heno
—y capel yn orlawn a'r bobol yn gwrando—pob
wyneb yn edrych arna' i'n syn ac yn ddifrifol—a
finne'n pregethu, pregethu— O'r nefoedd! . . .
Tomos Simon, gwnewch ych gwaethaf, fe draddodes
i'r bregeth. . . . A fe deimloch chi i heffaith hi!

DANIEL: Ond pam? Oedd awydd arnoch chi i
droi rhywun?

MALACHI: 'Dwn i ddim; 'dwn i ddim. 'Roedd
yn holl ened i yn y bregeth. Dyna i gyd wn i.

LEWIS EDWARDS: Ond pryd cyfansoddoch chi
hi? Pryd gwnaethoch chi'r bregeth?

MALACHI: 'Roedd hi wedi i chyfansoddi ers blyn-
ydde. Mi traddodes i hi ganwaith cyn heno—ar yr
hewlydd—yn y tai. Mi ofynnes i am bapur unwaith—
yn Jâl Caerfyrddin—i rhoi i lawr, ond chês i ddim.
Fentrwn i ddim dweyd 'y mhwrpas. . . . Ond
mi traddodes hi heno . . . !

DANIEL (*yn sydyn*): Ond shwt y cawsoch chi gopi
o lawysgrif Mr. David Jones, Crug Gwyn?

(*Sais MALACHI ennyd heb ddweyd gair.*)

MALACHI: Dafydd! (*Try pawb i edrych ar Ddafydd, sydd yn eistedd y tu ôl.*) Dafydd! Gâ i ddweyd wrthyn' nhw, Dafydd?

DAFYDD (*yn anghysurus*): Na. . . . Na, peidwch!

MALACHI: Paid a bod yn galed Dafydd. Mae'n nhw wedi eu dolurio. Mae'n nhw wedi lletya tramp mewn camsynied am bregethwr. Gâd i fi roi gwybod iddyn' nhw i bod nhw hefyd wedi lletya angel yn ddi-arwybod—yn y sgubor. . . . Wneiff e'r un gwa-hanieth i ti, Dafydd.

(*Ni ddywed DAFYDD air.*)

MALACHI: Gyfeillion, 'dwy ddim yn meddwl eich bod chwi wedi cael yr anrhydedd o gyfarfod â'r Parch. David Jones, bugail Salem, Crug Gwyn. (*Saf-ant yn fud.*) Pob un â'i gwrs mewn bywyd, frodyr; pob un â'i gwrs. Uchelgais ambell i dramp yw cael bod yn bregethwr, ac uchelgais ambell i bregethwr, mae'n debig, yw—y—cael troi allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau. Cael ychydig brofiad o ymylon bywyd. . . . Mr. Jones, gawn i air gyda chi?

DANIEL: Odi hyn yn wir?

DAFYDD (*yn codi*): Odi. Fi oedd bugail Salem, Crug Gwyn.

DANIEL: Wel—wel beth yw—beth yw ystyr hyn?

DAFYDD: 'Rwy' wedi gadael y swydd. Mae aelode nghapel i'n gwbod erbyn hyn. *Does gyda nhw ddim lle i achwyn. Fe ga' nhw well dyn yn y'n lle i. †Down i falle ddim yn ffit i'r swydd. O leia', 'doedd hi ddim yn cytuno â fi, a mi gadawes hi. Dyna'r peth calla' allwn i neyd, a mi gwrrddes i â'r llyn hyn. 'Roedd e am gâl pregethu yn y'n lle i. Fe oddodd i air i fi y bydde fe'n berffaith onest â chi, a 'rwy'n meddwl i fod e wedi cadw i air, a 'rwy'n redu nad oes gyda chi ddim lle i achwyn ar i bregeth e. . . . Dyna i gyd sydd gen i weyd. . . . lyswn i ddim wedi dwad i'ch tŷ chi heno onibai rod i wedi gweld bod angen cymorth ar yr hen wraig. (*n myned at y drws.*)

DANIEL: Ond—ond—mae peth fel hyn yn ofn-awy! Sefwch. Odych chi'n meddwl dweyd wrthw i ch bod chi wedi troi o bregethwr yn dramp o wir-fdd?

DAFYDD: Odw. 'Rown i am gâl profiad o'r byd. 'Ery ddim tamed gwaeth dyn nag oeddwn i, a 'dwy den yn bwriadu taflu'n hunan yn wastraff chwaith. 'Dy ddim yn bwriadu byw bywyd dioglyd. Ond 'rwy

am gâl gweld bywyd yn noeth a bod yn rhydd, a wedyn falle y ca'i ddarganfod 'y nghongl mewn cymdeithas. . . X. Nid pregethwr oeddwn i wedi mwr-iadu i fod. Mae rhai wedi 'u galw i'r gwaith, a mae gen i bob parch iddyn' nhw. Ond nid dyna ngwaith i, a mi fues i'n ddigon gwrol i dorri'r llyffetheirie a mynd.

GRUFFYDD (*sydd hyd yma wedi ei lwyr lethu gan y dargansfyddiad*): Ond, Mr. Jones, odych chi ddim yn gneyd camsynied mawr? Gadewch i ni'ch cynghoi chi. Gadewch—.

DAFYDD (*yn benderfynol*): Dim diolch i chi. 'Rwy' wedi câl llawn digon o gynghorion. A 'dwy ddim yn meddwl fod hawl gyda chi gynghori heb wbod yr amgylchiade. Fyswn i ddim wedi dweid gair heno onibai iddo fe ddweyd. 'Dwy'n gofyn dan ar ych llaw chi. . . . 'Dwy ddim wedi mync â dime nad oedd yn eiddo i fi, a 'does gan neb l i achwyn.

DANIEL: Mae arna' i ofan y dyfarwch chi, ma hgen i. 'Rych chi wedi gneyd peth difrifol iawn. Troi o swydd parchus at ddyinion fel hyn—tramps a phobol yr hewl!

DAFYDD; Pam? Nid dyma'r tro cynta' i bregethwr fynd i fyw ymhlith tramps a phobol yr hewl. 'Dwy ddim o angenrheidrwydd yn mynd i fyw yn wael—os mai gwael yw 'u bywyd nhw. 'Dwy'n adnabod fy hun. X

DANIEL: Ond ystyriwch. Ystyriwch. Cymerwch ych perswadio—.

DAFYDD (*yn ofni ei gael ei hun mewn dadl*): 'Rwy' wedi ystyried am wythnose—a blynnydde. 'Dych chi'n gwbod dim o'r amgylchiade na'n natur inre, a 'dwy ddim am ddadle'r peth, os gwelwch chi'n dda.

DANIEL: Wel, wrth gwrs, ych busnes chi yw hi. Mae hawl gyda chi ddewis ych cwrs.

GRUFFYDD: Oes, oes. Oes, oes. . . . Oes.

TOMOS SIMON: 'Dodd gydag e ddim hawl i anfon y dyn yma yn i le.

DAFYDD: Nag ôdd. 'Dodd gen i ddim hawl, a 'rwyn gwneyd ymddiheuriad. Ond 'down i—.

MALACHI: Dafydd, Dafydd. O, Dafydd! Paid a gwneyd ymddiheuriad am y tro goreu wnest ti yn dy fywyd! Paid ag ymddiheuro, Dafydd. Gyfeillion, pam rych chi'n achwyn? Fe gawsoch chi glywed

pregeth oedd yn freuddwyd bywyd—bywyd hen ŵr helbulus, wedi gweld yr ochor arwa, heb fod erioed yn y gorlan fel chi. Wedi gweld stormydd a thrafferthion, a phechodau, a'r cwbul wedi ymgnewdoli mewn un bregeth angherddol. 'Roedd gwaed y nghalon i yn y bregeth yna heno! (*Yn hwylio eto.*) Y Gŵr gofidus a chynefin â dolur. Mae E'n gweld heno galonnau drylliedig y byd—y rhai sydd wedi blino ar dristwch y daith, ac heb le i roi pen i lawr. (*Edrychant arno'n ddistaw, yn enwedig ANGHARAD, sydd yn edrych i fyny ato yn syn a gwelw.*) Y rhai sydd mewn newyn, neu syched neu boen. Y rhai sydd wedi syrthio wrth ochr y ffordd. . . . Deuwch ataf I bawb ar y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a Mi a esmwythâf arnoch. . . . O bechadur, os yw dy bechodau fel ysgarlad ânt cyn wynnied a'r eira. . . . Yr Oen a laddwyd sydd eto'n fyw!

(*Daw rhyw furmur oddiwrth y blaenoriaid. Dfwed LEWIS EDWARDS "Amen" yn ddistaw, ac ar yr un pryd daw ANGHARAD ymlaen at FALACHI. Yma/ael ef ynddi a thyr hithau i wyllo ar ei fraich.*)

MALACHI: Ddoi di gyda fi, merch i? . . . Dy hen dad, pechadurus. . . . Chei di ddim can!

LEWIS EDWARDS: 'Rwy'n dal at yr hyn ddweddes i. Mae lle i chi ac iddi hithe yn 'y nhŷ i heno.

MALACHI: Diolch yn fawr i chi am eich caredigrwydd. Mae cwrdd â chyfaill yn beth anamal iawn yn fy hanes i. Ond fe gâ i le. 'Dyw hi ddim mor anodd ag ych chi'n feddwl.

DANIEL: Ond y ferch, beth am dani hi?

MALACHI: Chaiff hi ddim cam. . . . 'Does dim eise i chi bryderu; chaiff hi ddim byw 'run fath a'i thad. Fe gafodd e i droi allan i'r oerfel yn go gynnar, a mae hithe wedi gweld y garw yn rhy ifanc—yn rhy ifanc o lawer. Ond, mor wir a bod Duw yn y nefoedd, os gwnês i gam â'i mam, chaiff hi ddim ymladd am dipyn o barch fel y cês i. A mi gaiff i mam i chladdu'n barchus hefyd. . . . Mae gen i arian. (*Yn feiddgar.*) Oes, Tomos Simon, a ffyrdd i wneyd arian hefyd! Mi gaiff hi i chyfle. . . . Nos da, gyfeillion, a diolch yn fawr i chwi am roi un diwrnod o groesaw a pharch am yr unig dro yn i fywyd i hen grwydryn ar wyneb y ddaear. . . . Ddoi di gyda fi, Dafydd?

DAFYDD: 'Rwy'n barod.

MALACHI: Allan i'r prif-fyrdd a'r caeau, eto, gyfeillion. (*Cerdd ef ac ANGHARAD i gyfeiriad DAFYDD a'r drws. Gesyd ei law ar ysgwydd DAFYDD, a'i wyneb yn disgleirio unwaith eto.*) Dafydd! O, Dafydd, fy mab, 'rwy' wedi cael fy niwrnod!

LLEN.

DIWEDD.

CYFRES ABERTAWE.

"PELENNI PITAR" (*D. T. Davies*).
Comedi mewn Tair Act. Prs, 2/6 ; drwy'r Post, 2/7.

"Y BRIODAS ORFOD" (*Molière*).
Comedi Un Act, Deg Golygfa.
Cyfieithiad Buddugol Eisteddfod Genedlaethol
Pwllheli, 1925.
Gan NATHANIEL H. THOMAS, M.A., Abertawe.
Prs, 2/- ; drwy'r Post, 2/1.

"ATGOFION," Drama Un Act gan BRINLEY JONES.
Prs, 1/3 ; drwy'r Post, 1/4.

"PU'N," Comedi mewn Un Act gan IDWAL JONES.
Prs, 1/3 ; drwy'r Post, 1/4.

"WILLIAM," Ffars Gymraeg, Un Act,
Gan JOHN PHILLIPS.
Prs, 1/3 ; drwy'r Post, 1/4.

